




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru

Cynllun Strategol Sero Net

Medi 2022

Ynglŷn â'r Cynllun Strategol hwn

Croesawodd Llywodraeth Cymru gymorth gan y Gwasanaeth Ynni i gydgyssylltu datblygiad ein cynllun i sicrhau sero net fel sefydliad. Ni fyddai wedi bod yn bosibl llunio'r cynllun hwn chwaith heb gymorth gan randdeiliaid ar draws y sefydliad sydd wedi cyfrannu at ei ddatblygiad. Mae cydweithwyr o bob rhan o Lywodraeth Cymru wedi darparu data, syniadau, ac adborth i helpu i nodi blaenoriaethau y byddwn yn ymrwymo i'w cyflawni wrth weithio tuag at ein hamcanion.



Rhagair



Dr Andrew Goodall

Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu ein hymrwymiad i ymwreiddio ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth yr ydym yn ei wneud. Mae hyn yn dilyn datganiad Llywodraeth Cymru o Argyfwng Hinsawdd yn 2019.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn chwarae ein rhan wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac yn cyd-fynd ag uchelgais Gweinidogion Cymru i'r sector cyhoeddus fod yn sero net erbyn 2030. Mae hefyd yn dangos ein cyflawniad yn erbyn gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ein cyfarwyddo i ystyried problemau parhaus hirdymor fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd, a'r newid yn yr hinsawdd.


Fel cyflogwr sector cyhoeddus pwysig ag adnoddau ariannol mawr, mae gan Lywodraeth Cymru ran bwysig i'w chwarae o ran cyfrannu at uchelgais 2030 ac arwain trwy esiampl trwy ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Bydd angen i ni fod ar flaen y gad o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (a adnabyddir hefyd fel allyriadau carbon), felly mae angen i'n targedau a'n gweithredoedd fod yn uchelgeisiol.

Yn 2019–20, arweiniodd ein hallyriadau carbon at fwy na 158,142 tonnell o garbon deuocsid a'i gyfatebol (CO₂e). Daw'r allyriadau nwyon tŷ gwydr hyn o amrywiaeth o ffynonellau, y mae gennym reolaeth uniongyrchol dros rai ohonynt, fel adeiladau, ailgylchu, teithio, ac ynni a defnydd o ddeunyddiau, tra bod eraill, fel allyriadau cadwyn gyflenwi, yn fwy heriol. Mae hyn yn amlygu cymhlethdod yr her y mae angen i ni fynd i'r afael â hi, ond trwy ddeall y problemau, gallwn gydweithio i roi sylw iddynt. Mewn rhai achosion, bydd angen i ni ystyried newidiadau sylfaenol i'n dull o ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau buddsoddi, a newidiadau i'n hymddygiad corfforaethol ac ymddygiad unigolion o fewn y sefydliad. Bydd y newid hwn yn helpu i gyflawni ein Cynllun Strategol Sero Net, i gyflawni uchelgais sero net 2030 a hefyd i arwain gweddill Cymru wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Mae Cynllun Strategol Sero Net Llywodraeth Cymru yn cyflwyno 54 o fentrau a fydd yn cael eu hasesu a'u hadolygu yn 2025 a 2030. Mae'r mentrau a'r targedau uchelgeisiol hyn yn dibynnu arnom yn cynyddu ein harbedion effeithlonrwydd, cadw deunyddiau mewn defnydd ac osgoi gwastraff, buddsoddi mewn datgarboneiddio ein hadeiladau a'n cerbydau, a newid y ffordd yr ydym yn ymddwyn bod mai carbon isel yw'r dewis diofyn ym mhob cam yr ydym yn ei gymryd. Mae hefyd yn dibynnu ar newid y ffordd yr ydym yn gweithio gyda chyflenwyr a phartneriaid. Gall ein penderfyniadau eu dylanwadu fel eu bod yn ymuno â ni ar ein taith i sero net. Mae'n rhaid i leihau allyriadau carbon ddod yn rhan annatod o'n proses o wneud penderfyniadau a llunio polisi, mae'n rhaid ei ystyried yn fusnes fel arfer.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yma at ddatblygu'r Cynllun Strategol hwn, o'r rhai a wnaeth helpu i sefydlu'r data ar gyfer allyriadau, i'r rheini ohonoch sydd wedi helpu i lunio'r mentrau a'r camau y mae angen i ni eu cymryd i sicrhau sero net. Mae datblygiad a darpariaeth y Cynllun Strategol Sero Net hwn yn seiliedig ar bartneriaeth ac ymgysylltiad.

Yn olaf, hoffwn glori drwy ddweud bod gan bob un ohonom ran i'w chwarae yn y broses o ddatgarboneiddio Cymru a sicrhau sero net. Bydd y dewisiadau y byddwch chi'n eu gwneud fel unigolyn, yn ogystal â chyflogai, yn chwarae rhan bwysig o ran lleihau ein hallyriadau carbon a gweithredu fel esiampl i weddill Cymru.



Cynnwys

Rhagair.....	3
---------------------	----------

Crynodeb gweithredol	6
-----------------------------------	----------

Nod y Cynllun Strategol Sero Net.....	6
Ein hôl troed carbon.....	6
Ein cynllun strategol i sicrhau sero net	6
Mentrau strategol sero net	8
Y camau nesaf	9

Tuag at Gymru sero net	10
-------------------------------------	-----------

Sero net ar gyfer Llywodraeth Cymru	11
--	-----------

Swyddogaeth Llywodraeth Cymru	11
Graddfa'r gweithrediadau	12
Datblygu ein dull o ymdrin â sero net.....	13
Cyd-fynd â pholisïau gweithredu eraill	14

Ein hôl troed carbon	15
-----------------------------------	-----------

Ein cynllun strategol ar gyfer sero net	18
--	-----------

Arwain drwy esiampl	18
Ein gweledigaeth ar gyfer sero net sefydliadol	18
Ein targedau	18
Allyriadau gweddilliol a gwrthbwysio	22

Darparu'r Cynllun Strategol.....	23
---	-----------

Llywodraethu	24
Adnoddau a Chyllid.....	25
Monitro ac Adrodd.....	25
Ymwreiddio sero net.....	26

Mentrau.....	27
---------------------	-----------

1. Adeiladau a seilwaith	28
2. Fflyd gorfforaethol.....	34
3. Teithio busnes.....	35
4. Gweithio clyfar.....	36
5. Cadwyn gyflenwi, nwyddau a gwasanaethau a gaffaelir	39
6. Defnydd tir.....	40
7. Allyriadau gweddilliol a gwrthbwysio	42

Y camau nesaf	43
----------------------------	-----------

Datblygu ein Cynllun Gweithredu	43
Cymryd camau a chynnal momentwm	43
Sicrhau sero net.....	43

Atodiad A: Allyriadau yn ôl cwmpas	44
---	-----------

Atodiad B: Tybiaethau llwybr	45
---	-----------

Atodiad C: Gwybodaeth am weithio clyfar.....	47
---	-----------



Crynodeb gweithredol

Nod y Cynllun Strategol Sero Net

Mae gan Lywodraeth Cymru ran ganolog i’w chwarae o ran mynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd yng Nghymru. Rydym yn gyflogwr sector cyhoeddus pwysig yng Nghymru ac mae gennym adnoddau ariannol mawr ac asedau sylweddol sy’n destun ein dylanwad.

Rydym yn dymuno arwain drwy esiampl a bod â’r uchelgais o sicrhau sero net fel sefydliad erbyn 2030, gan gyfrannu at darged sero net cyfunol Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2030 drwy wneud hynny. Mae ein targed sero net sefydliadol yn ein rhwymo i drywydd datgarboneiddio uchelgeisiol a fydd yn gofyn am newid trawsnewidiol ar draws sefydliad Llywodraeth Cymru.

Mae’r Cynllun Strategol hwn yn dod â thystiolaeth o bob rhan o Lywodraeth Cymru ynghyd i amlinellu ein mentrau datgarboneiddio blaenoriaeth. Mae’n rhan o broses barhaus sy’n nodi cyfleoedd i leihau ein hól troed carbon a monitro cynnydd o ran cyd-fynd â sero net.



Ein hól troed carbon

Rydym wedi llunio Canllaw Adrodd Sero Net y Sector Cyhoeddus sy’n sefydlu’r egwyddorion ar gyfer cyfrifyddu ac adrodd carbon i gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn cydnabod yr angen i esblygu’r dull dros amser, ond fel cam cyntaf, rydym wedi gallu datblygu ein hallyriadau carbon sylfaenol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019–20.

Ein hól troed carbon tCO ₂ e	2019–20
Allyriadau gweithredu	24,516
Allyriadau cadwyn gyflenwi	131,900
Defnydd tir	129
Cyfanswm allyriadau	156,545

Yn 2020–21, fe wnaethom leihau ein hól troed carbon 18% o’i gymharu â 2019–20, yn rhannol oherwydd effeithiau COVID-19, ond hefyd oherwydd ein hymdrechion i leihau ein heffaith amgylcheddol. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd i wella effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu adnewyddadwy, effeithlonrwydd gweithredu, ac i ymgysylltu â’n cyflenwyr; ond bydd y Cynllun Strategol hwn yn ein helpu nawr i fynd ymhellach a chynyddu gweithgarwch tuag at darged 2030.

Ein cynllun strategol i sicrhau sero net

Mae’r Fenter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth (SBTi) yn darparu diffiniad cynhwysfawr o sero net sefydliadol. Dyluniwyd y safon hon ar gyfer cwmnïau sector preifat; ond rydym yn alinio ein hunain â diffiniad SBTi yn absenoldeb safon sero net sefydliadol sector cyhoeddus.

I sicrhau sero net, gan gyd-fynd â’r SBTi, bydd yn rhaid i ni leihau cyfanswm ein hallyriadau yn 2030 o leiaf 90% o’u cymharu â’n blwyddyn llinell sylfaen, 2019–20. Dim ond pan fyddwn wedi pennu sut y byddwn yn lleihau ein hallyriadau cymaint â phosibl y byddwn yn ystyried cael gwared ar nwyon tŷ gwydr i gydbwyso unrhyw allyriadau gweddilliol na ellir cael gwared arnynt.

GWYBODAETH:

Mae ein llinell sylfaen ôl troed carbon o 2019–20 yn 156,545 tCO₂e, sy’n cyfateb i wresogi a phweru 44,000 o gartrefi am flwyddyn.

I ysgogi cynnydd tuag at sero net, rydym wedi pennu targedau meintiol ac ansoddol.

Rydym wedi pennu targed lleihau carbon mesuradwy ar gyfer ein hallyriadau gweithredu a thargedau ansoddol ar gyfer ein cadwyn gyflenwi tra bod y dull cyfrifyddu carbon yn cael ei sefydlu.

2,491 tCO₂e yw ein targed allyriadau gweithredu ar gyfer 2030. Mae modelu llwybr cychwynnol ar gyfer y Cynllun Strategol hwn yn dynodi y byddwn yn sicrhau gostyngiad o 55–75% erbyn 2030, sy'n dangos y bydd hyd yn oed ein llwybr mwyaf uchelgeisiol ar hyn o bryd yn ein gadael â blwch i'r targed o 15%. Mae angen, felly, i ni gyflymu gweithgarwch, sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf posibl, a mynd ymhellach os ydym yn mynd i gyrraedd ein nod.



Os byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud cymaint â phosibl o'r hyn y gallwn ei wneud, byddwn mewn sefyllfa parod ar gyfer sero net erbyn 2030. Bydd ein hallyriadau gweithredu gweddilliol yn cael eu gwneud cyn lleied â phosibl ac yn lleihau ymhellach wrth i'n systemau ynni cenedlaethol a dulliau teithio symud tuag at sero net.

Targed lleihau carbon gweithredu

Gostyngiad o 90% i allyriadau i gyd-fynd â'r Fenter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth yn seiliedig ar linell sylfaen 2019–20:

2,491 tCO₂e

Allyriadau gweithredu (gan gynnwys allyriadau gweithio gartref) tCO₂e



Mae ein llwybr allyriadau yn ddibynnol ar newid ar lefelau cyflogaion, sefydliadol a chenedlaethol. Mae'n rhaid i ni sicrhau newid ym mhobman lle mae gennym ddylanwad uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys dylanwadu ar ein cyflenwyr, tyfu'r economi gylchol, a chyfrannu yn uniongyrchol at ddatgarboneiddio'r grid trydan.

Mae ein targedau ansoddol wedi'u pennu i ysgogi cynnydd ar gyfer cyfrifyddu carbon cadwyn gyflenwi, datgarboneiddio cadwyn gyflenwi, cynhyrchu adnewyddadwy, effeithlonrwydd adnoddau a defnydd tir ar gyfer cael gwared ar nwyon tŷ gwyr.



Targedau ansoddol

1. Yn 2023, byddwn wedi cyflwyno cynllun esblygu ar gyfer asesu allyriadau carbon mewn tendrau a chontractau, a bydd hwn yn nodi pryd y bydd gofynion cyflenwyr sero net ar waith.
2. Erbyn 2025, bydd gennym ddealltwriaeth gadarn o'n hallyriadau cadwyn gyflenwi cwrpas 3 ac yn gallu nodi targed mesuradwy yn ein Cynllun Strategol nesaf.
3. Byddwn yn cyfrannu yn uniongyrchol at gapasiti cynhyrchu trydan adnewyddadwy i fodloni'r targed perchnogaeth leol 1GW ar gyfer Cymru erbyn 2030.
4. Byddwn yn cyfrannu yn uniongyrchol at greu Coedwig Genedlaethol i ymestyn o'r gogledd i'r de.
5. Byddwn yn caffael ar sail sy'n blaenoriaethu nwyddau a chynhyrchion sydd wedi'u gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailweithgynhyrchu, eu hailwampio a'u hailgylchu.

Bydd y rhain yn newid i dargedau mesuradwy, gyda'n cadwyn gyflenwi yn cyd-fynd â gostyngiad cyffredinol o 90% i allyriadau.

Mentrau strategol sero net

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn cyflwyno 54 o fentrau sy'n darparu'r sylfaen i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen tuag at sero net. Bydd darparu'r mentrau hyn yn cael ei ymwreiddio yng nghyfrifoldebau ein staff, ac yn adlewyrchu ein camau mewnol uniongyrchol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Mae'r mentrau yn cwmpasu ein sefydliad cyfan, o weithrediad ein hadeiladau, y ffordd yr ydym yn teithio, y ffordd yr ydym yn caffael ein nwyddau a'n gwasanaethau, a'n ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

Mae maint y newid sydd ei angen yn drawsnewidiol – bydd angen uwchraddio effeithlonrwydd ynni ac adnoddau, gwres a phŵer adnewyddadwy, newid i ddeunyddiau mwy cynaliadwy a symud i fflyd ddi-allyriadau yn effeithiol. Ochr yn ochr â hyn, rydym angen gweithrediadau effeithlon, arfer caffael carbon isel, a chymorth i'n staff sydd gartref ac yn cymudo i ddatgarboneiddio yn raddol.

Gan adeiladu ar ein gwaith presennol, mae'n rhaid i ni roi'r mentrau strategol hyn ar waith nawr. I fynd i'r afael â phob menter, byddwn yn cyflwyno Cynllun Gweithredu â champau, cyfrifoldebau, ac amserlenni penodol i gydnabod y gweithrediad o newid.

Y camau nesaf

Ar draws ein sefydliad, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio nawr ar gyflawni a chynnal camau gweithredu ar yr hinsawdd.

Bydd gweithredu'r cynllun hwn a sicrhau sero net yn gofyn am amgylchedd galluogi, lle mae dewis opsiynau sy'n cyd-fynd â sero net yn dod yn arferol, wedi'i ymwreiddio yn ddiwylliannol ac yn hunan-reoleiddio.


Bydd Pwyllgor Gweithredol Bwrdd Llywodraeth Cymru, ein corff rheoli uchaf, yn cymryd cyfrifoldeb am y Cynllun Strategol hwn.

Bydd y Prif Swyddog Gweithredu yn cymryd cyfrifoldeb am ysgogi'r datblygiad a'r camau parhaus i weithredu'r Cynllun Strategol ac yn atebol am ei lwyddiant.

Mae rhoi strwythur llywodraeth ar waith, cynllunio gweithredol manwl a sicrhau'r adnoddau a'r cyllid angenrheidiol i gyd yn gamau nesaf hollbwysig. Byddwn yn cynyddu graddfa a'r cyflymder y byddwn yn ysgogi datgarboneiddio ar draws ein gweithrediadau.

Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol yw'r her fwyaf arwyddocaol ar gyfer ein cenedlaeth. Er bod ein huchelgais yn sylweddol, mae'n rhaid i ni weithredu nawr. Mae'n rhaid i'n camau leihau ein hallyriadau a hefyd diogelu bioamrywiaeth a natur, glanhau'r aer rydym yn ei anadlu, cynyddu ein gallu i wrthsefyll newid hinsawdd, ac ychwanegu gwerth at Gymru.

Byddwn yn cael ein barnu ar y gwaith yr ydym yn ei wneud yn y blynyddoedd nesaf. Mae'n rhaid i ni ddangos arweinyddiaeth drwy esiampl ar gyfer yr hyn y gellir ei gyflawni yng Nghymru, i sicrhau ein dyfodol, ac i amddiffyn llesiant cenedlaethau'r dyfodol.



Tuag at Gymru sero net

Ers datgan argyfwng hinsawdd yn 2019, ac ymateb i gyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, mae Cymru wedi deddfu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (y cyfeirir atynt hefyd fel allyriadau carbon) i sero net erbyn 2050.

Mae Cymru wedi sefydlu cyfres o gyllidebau carbon 5 mlynedd statudol sy'n diffinio'r llwybr i fodloni'r targed. Mae Cymru Sero Net, a gyhoeddwyd yn 2021, yn cyflwyno 123 o bolisiâu a chynigion i fodloni'r ail gyllideb garbon (2021–25), gan gyflawni yn erbyn y 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd.


Mae'r cynllun yn pennu uchelgais i **“sector cyhoeddus [Cymru] yn ei gyfanrwydd yn sero net erbyn 2030”**. Lluniodd Llywodraeth Cymru y Trywydd Statws Carbon Sero Net erbyn¹ (Mai 2021) fel trosolwg strategol o'r meysydd camau blaenoriaeth a'r cerrig milltir angenrheidiol i gynorthwyo sefydliadau sector cyhoeddus i ddatblygu eu cynlluniau strategol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Sero Net², a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r trywydd ym mis Mai 2021, i gynorthwyo Sector Cyhoeddus Cymru i fesur a deall eu hallyriadau carbon yn gyson a chynorthwyo datblygiad a chynhaliadaeth eu Cynlluniau Gweithredu ar ddatgarboneiddio.

Mae'r Canllaw ar gyfer Adrodd ar Sero Net wedi helpu i bennu'r llinell sylfaen ar gyfer ein hallyriadau carbon, ond rydym yn cydnabod yr angen i esblygu'r dull, yn benodol, i gynyddu cywirdeb cyfrifyddu allyriadau cadwyn gyflenwi.



Ffigur 1: Deddfwriaeth, strategaethau, ac ymrwymïadau Cymru sy'n ysgogi datgarboneiddio



¹ Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru

² Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Sero Net

Sero net ar gyfer Llywodraeth Cymru


Swyddogaeth Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus ehangach a rhanddeiliaid eraill i ddarparu polisiau effeithiol i wella bywydau pobl yng Nghymru ar draws meysydd fel iechyd, addysg, a'r amgylchedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, a gweision sifil cynorthwyl, yn gweithredu gyda'i gilydd fel y corff gweithredol yng Nghymru. Rydym yn cynllunio polisi ac yn gweithredu deddfau sy'n cael eu pasio gan Senedd Cymru, y ddeddfwrfa yng Nghymru.

Cytunwyd ar ffin weithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer adrodd ar allyriadau carbon, a ddangosir yn Ffigur 1, gan randdeiliaid yn rhan o Ganllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Sero Net. Mae hwn yn dangos y rhannau o'r sefydliad y mae gan Lywodraeth Cymru ddylanwad drostynt i leihau allyriadau yn uniongyrchol, ac yn cyfateb i strwythur atebolrwydd a llywodraethu Llywodraeth Cymru yn y cyfrifon blynyddol.

Ffigur 2: Ffin sefydliadol Llywodraeth Cymru ar gyfer adrodd ar ôl troed carbon



Graddfa'r gweithrediadau

Mae ein 5,405 o staff cyfwerth ag amser llawn yn goruchwyllo amrywiaeth eang ac amrywiol o gyfrifoldebau, o gynnal dros 1,500 cilomedr o gefnffyrdd i reoli 127 o safleoedd treftadaeth ledled Cymru³. Mae graddfa ac amrywiaeth ein gweithrediadau yn golygu y bydd sicrhau sero net fel sefydliad yn her. Serch hynny, rydym wedi ymrwmo i ymateb i'r her, gan wneud yr amcan o sicrhau sero net yn ganolog i'n sefydliad, ysgogi ymdrech ragweithiol i ddatgarboneiddio, a bod yn esiampl i'r sector cyhoeddus ehangach a chymdeithas wneud yr un fath.



Ffigur 3: Graddfa gweithrediadau Llywodraeth Cymru

£443 miliwn

mewn gwariant cyfalaf ac adnoddau



24 o swyddfeydd
a 76,181m²

o le gweithio a chyfarfod



Dros
1,500km

cilomedr o rwydweithiau ffyrdd strategol i'w rheoli, eu cynnal, a'u gwella



20,000

o oleuadau stryd ar ein cefnffyrdd a'n traffyrdd



5,405

o staff cyfwerth ag amser llawn



127

o safleoedd treftadaeth yn ein gofal



1,534

hectar o dir



Tua
32

o filltiroedd cymudo blynyddol i'n staff



3 Caiff unrhyw asedau a leswyd i drydydd partïon eu heithrio yn unol â chanllaw y Sector Cyhoeddus ar gyfer adrodd ar sero net.

Datblygu ein dull o ymdrin â sero net

Mae'r Cynllun Strategol Sero Net hwn yn dod â thystiolaeth a syniadau o bob rhan o Lywodraeth Cymru ynghyd i amlinellu ein mentrau datgarboneiddio blaenoriaeth hyd at 2030. Bydd yn ofynnol eu gweithredu yn llwyddiannus i sicrhau sero net fel sefydliad a chynorthwyo'r sector cyhoeddus ehangach i sicrhau sero net cyfunol.


Hysbyswyd y mentrau gan staff Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr technegol sy'n deall y gwaith a gwblhawyd eisoes, a pha gyfleoedd a oedd yn weddill i leihau allyriadau carbon cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl.

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn rhan o broses sy'n nodi cyfleoedd i leihau ein hól troed carbon a monitro cynnydd tuag at ein hamcanion sero net. Er eu bod yn canolbwyntio ar leihau allyriadau carbon, dylai pob penderfyniad, polisi a gweithredu fod yn ystyriol o effeithiau ehangach y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys addasu i'r risgiau a'r cyfleoedd a sicrhau bod ein gweithredoedd yn cyflawni trosglwyddiad teg a chyfiawn i sero net.

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn canolbwyntio ar gael gwared ar allyriadau carbon o'n gweithgareddau ac yn amlinellu'r hyn sy'n ofynnol i sicrhau sero net. Mae darparu'r mentrau hyn yn ategol i amcanion economaidd-gymdeithasol ac ecolegol eraill yn hanfodol.

Yn dilyn y Cynllun Strategol hwn, y cam nesaf yw datblygu cynllun gweithredu cam wrth gam wedi'i gostio, yn amlinellu prosiectau penodol y gellir eu rhoi ar waith i leihau allyriadau ar draws y sefydliad gan gyd-fynd â sero net.

Ffigur 4: Camau gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd



Cyd-fynd â pholisïau gweithredu eraill

Yn ogystal â chefnogi ymrwymiad Cymru i sicrhau sero net ar draws y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd erbyn 2030, datblygwyd y Cynllun Strategol hwn i gefnogi ein polisïau gweithredu a'n canllawiau presennol ar gyfer y sector cyhoeddus.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hymrwymadau hyd at 2026; mae hyn yn cynnwys ein datganiad Llesiant sy'n nodi


10 amcan llesiant i sicrhau bod ein cyfraniad at saith nod llesiant hirdymor Cymru mor fawr â phosibl.

Mae'r aliniad hwn yn hollbwysig i sefydlu dull cydgysylltiedig o gyflawni ein hamcanion a gwneud yn siŵr bod materion yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu hystyried ym mhob agwedd ar y broses o wneud penderfyniadau ar draws y llywodraeth.

Hefyd, fel sefydliad sector cyhoeddus, rydym yn dilyn y canllawiau arfer gorau a'r polisïau a gyflwynir ar gyfer pob corff cyhoeddus.

Cyflwynir rhai enghreifftiau o'n polisïau a strategaethau Cymru gyfan yn ysgogi camau i ddatgarboneiddio isod.

Polisïau a strategaethau sefydliadol




Rhaglen Lywodraethu 2021–2026




Datganiad Llesiant 2021–2026



Strategaeth Gynaliadwydd yr Ystad Weinyddol 2020–2030



Adroddiad Cyflwr yr Ystad, 2019–20



Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol y 2021–2024




Strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu: 2021 i 2026


Strategaethau a chanllawiau Cymru gyfan



Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru



Cyllideb Garbon 2 Sero Net Cymru (2021–25)



Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, Trywydd Sector Cyhoeddus




Nodiadau Polisi Caffael Cymru



Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Sero Net



Safonau adeiladu cynaliadwy



Mwy nag ailgylchu – gweithredu economi gylchol yng Nghymru



Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru, 2016–2026

Ein h l troed carbon

Mae **Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Sero Net** yn rhoi manylion yr egwyddorion ar gyfer cyfrifyddu ac adrodd ar garbon ar gyfer sector cyhoeddus cyfan Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Caiff allyriadau eu hadrodd yn rheolaidd gan ddefnyddio'r Protocol Nwyon T  Gwydr, sy'n categorio allyriadau i dri chwmpas. Dangosir dadansoddiad allyriadau fesul chwmpas yn unol  r Protocol Nwyon T  Gwydr yn Atodiad A.

Yn rhan o'n gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, rydym wedi ymrwymo i fesur ac adrodd ar ein h l troed carbon yn flynyddol. Mae'r broses hon yn rhoi awgrym eglur i ni o ffynonellau ein hallyriadau ac yn ein caniat u i fonitro'r cynnydd a wnaed o ran lleihau ein h l troed carbon dros amser.

Rydym wedi mesur ein h l troed carbon ar gyfer 2019–20 a 2020–21.


GWYBODAETH:

Mae ein h l troed carbon ar gyfer 2019–20 yn cyfateb i  l troed blynyddol cyfartalog 77,500 o geir neu wresogi a phweru 44,000 o gartrefi am flwyddyn⁴.

Ein h�l troed carbon tCO ₂ e	2019–20	2020–21
Allyriadau gweithredu	24,516	14,355
Allyriadau cadwyn gyflenwi ⁵	131,900	113,200
Defnydd tir	129	129
Cyfanswm yr allyriadau	156,545	127,684

Ar draws pob adran, gellir categorio ffynonellau allyriadau yn chwe chategori eang:

Ffigur 5:  l troed carbon Llywodraeth Cymru yn 2019–20



⁴ Yn tybio bod 1 car yn gyrru tua 7,400 milltir y flwyddyn ag allyriadau o 2.0 tCO₂e, a bod aelwyd yn defnyddio 11,526 kWh o nwy a 3,772 kWh o drydan.

⁵ Mae allyriadau gweithredu yn cynnwys: adeiladau a seilwaith, fflyd gerbydau, teithio busnes a chymudo.

Mae pob categori wedi'i gyfansoddi o sawl ffynhonnell allyriadau. Ein pum prif ffynhonnell allyriadau ar gyfer y flwyddyn llinell sylfaen (BA 2019–20) oedd:



1: Y nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym yn eu caffael

131,900_{tCO₂e}



2: Cyflogeion yn cymudo i'r gwaith

6,884_{tCO₂e}



3: Trydan i bweru ein hadeiladau

5,806_{tCO₂e}



4: Trydan i bweru ein goleuadau stryd

5,370_{tCO₂e}




5: Milltired car preifat ar gyfer teithiau busnes

2,210_{tCO₂e}

Mae'n bwysig nodi bod ein dwy ffynhonnell allyriadau fwyaf (nwyddau a gwasanaethau a brynir a chymudo cyflogeion) yn cael eu hamcangyfrif gan ddefnyddio meincnodau a dirprwyon oherwydd y diffyg data gweithgarwch sydd ar gael. Er bod hyn yn cynyddu ansicrwydd yn y cyfrifiad, mae'n her gyffredin wrth gyfrifo ôl troed ac yn angenrheidiol tan y bydd gwelliannau data yn cael eu gwneud.

Rhwng 2019–20 a 2020–21, lleihawyd ôl troed carbon sefydliadol Llywodraeth Cymru tua 18%, yn rhannol oherwydd pandemig COVID-19. Mae'r gostyngiad cyffredinol oherwydd:

- › Y newid i weithio gartref – 97% yn llai o gymudo.
- › Llai o deithio busnes – 91% yn llai.
- › Datgarboneiddio'r grid cenedlaethol.
- › Llai o feddiannaeth adeiladau.
- › Llai o allyriadau cadwyn gyflenwi.



Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd ac yn parhau i wneud hynny o ran datgarboneiddio rhagweithiol ar ein hystad, (e.e. yr ystad weinyddol, Cadw), uwchraddio goleuadau stryd, a fflyd carbon isel.


Gan fod blwyddyn ariannol 2019–20 heb ei heffeithio i raddau helaeth gan COVID-19, mae'n llinell sylfaen briodol i fesur ymdrechion datgarboneiddio parhaus ohoni, a dyma'r flwyddyn gyntaf a ddefnyddir ar gyfer adrodd ar garbon sector cyhoeddus.

GWYBODAETH:

Mae dros hanner cyfanswm ein gwarant wedi'i grynhoi yn y 12 contract â'r gwerth uchaf ac mae 58 o gontractau yn gyfrifol am 90% o'n gwarant.



Ffigur 6: Canran o wariant Llywodraeth Cymru fesul nifer y cyflenwyr



Ein cynllun strategol ar gyfer sero net

Arwain drwy esiampl

Mae'n rhaid i sector cyhoeddus Cymru

gyrraedd sero net cyfunol erbyn 2030. Er mwyn bodloni'r targed hwn, bydd angen cydweithredu a rhannu gwybodaeth i ysgogi cryfderau a chyfleoedd o bob rhan o'r sector cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod bod ymdrech gyfunol yn hollbwysig i wneud y targed yn gyrraeddadwy a bod ein sefyllfa o arweinyddiaeth a dylanwad yn y sector cyhoeddus yn rhoi cyfle i ni arwain drwy esiampl a chynorthwyo'r sector cyhoeddus ehangach i gyflawni'r nod hwn.

Dyma pam, yn ogystal â'r targed sector cyhoeddus cyffredinol, yr ydym hefyd wedi pennu ein targed sero net sefydliadol ein hunain.

Mae'r targed sero net sefydliadol yn ein rhwymo i drywydd datgarboneiddio uchelgeisiol a fydd yn gofyn am newid trawsnewidiol ar draws sefydliad Llywodraeth Cymru i'w gyflawni.

Mae arwain drwy esiampl yn golygu gwneud gostyngiadau uchelgeisiol i allyriadau ar draws ein gweithrediadau, gan rannu'r syniadau diweddaraf ar ysgogi newid ymddygiad cadarnhaol, a chydweithredu â'n partneriaid ar draws y llywodraeth a sector cyhoeddus ehangach Cymru.

Enghreifftiau o'n cefnogaeth i sector cyhoeddus Cymru:

- › Parhau i ariannu'r Gwasanaeth Ynni i ddarparu mynediad i holl sefydliadau sector cyhoeddus Cymru at wasanaethau cynghori a thechnegol ar gyfer technolegau a phrosiectau carbon isel.
- › Darparu £15 miliwn o gyllid y flwyddyn trwy Raglen Gyllido Cymru a Buddsoddi i Arbed.
- › Datblygu a dosbarthu nodiadau polisi caffael i gynghori ar ddatgarboneiddio'r gadwyn gyflenwi.
- › Parhau i ddatblygu ein canllaw sector cyhoeddus ar gyfer adrodd a dulliau i annog pob sefydliad i adrodd ar allyriadau mewn ffordd gywir a chyson.
- › Cefnogi'r broses o gyflwyno canolfannau trwsio ac ailddefnyddio ynghyd â gwelliannau parhaus i ailgylchu trwy ein Cronfa'r Economi Gylchol.

Enghreifftiau o'n cymorth i gymunedau, ardaloedd lleol, a busnesau yng Nghymru ar gyfer datgarboneiddio:

- › Rydym yn cynorthwyo grwpiau cymunedol i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy drwy'r Gwasanaeth Ynni a chyda chyllid Banc Datblygu Cymru.
- › Rydym yn cynorthwyo aelwydydd a'r rhai sydd mewn tloedi tanwydd gyda'n rhaglenni 'Ôl-osod er mwyn Optimeiddio' a 'Cartrefi Clyd'.
- › Rydym yn cynorthwyo teithio carbon is drwy Trafnidiaeth Cymru, Asiantaethau Cefnffyrdd, a'n cyflwyniad o seilwaith gwefru cerbydau trydan.
- › Rydym yn cynorthwyo busnesau drwy ein swyddogaeth cymorth Busnes Cymru a chronfa'r economi gylchol.
- › Rydym yn darparu cymorth i ddatblygu Strategaethau Ynni Rhanbarthol a Chynlluniau Ynni Ardal Leol.



Ein gweledigaeth ar gyfer sero net sefydliadol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau sero net fel sefydliad a chefnogi'r uchelgais sero net i sector cyhoeddus cyfan Cymru erbyn 2030.

Fel Llywodraeth Cymru, rydym wedi dewis dilyn y Fenter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth (SBTi), sy'n darparu diffiniad cynhwysfawr o sero net sefydliadol. Dyluniwyd y safon hon ar gyfer cwmnïau sector preifat, ond rydym yn alinio ein hunain â diffiniad SBTi yn absenoldeb safon sero net sefydliadol sector cyhoeddus.

I sicrhau sero net fel sefydliad, gan gyd-fynd â'r SBTi⁶, bydd yn rhaid i ni leihau cyfanswm ein hallyriadau gweithredu a chadwyn gyflenwi o leiaf 90% o'u cymharu â'r flwyddyn llinell sylfaen. I gyflawni hyn erbyn 2030, mae'n rhaid i ni fodloni ein targed allyriadau gweithredu presennol o 90%, a newid ein dull cadwyn gyflenwi ansoddol i sicrhau'r un canlyniad.

Dim ond pan fyddwn wedi pennu sut y byddwn yn lleihau ein hallyriadau cymaint â phosibl y byddwn yn ystyried cael gwared ar nwyon tŷ gwydr i gydbwysu unrhyw allyriadau gweddilliol na ellir cael gwared arnynt. Mae pennu isafswm gofynnol o 90% ar gyfer lliniaru yn cefnogi'r dull hwn.

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn cynnwys y mentrau strategol a fydd yn ein symud tuag at ein huchelgais sero net. Mae angen cynllunio gweithredol a gwaith datblygu pellach i ddarparu pob menter a throi uchelgais strategol yn weithredu.

Hefyd, mae ein gweledigaeth yn ymestyn i'r sector cyhoeddus ehangach y byddwn yn ei gynorthwyo i sicrhau sero net yn ei gyfanrwydd erbyn 2030. Byddwn yn parhau i gynorthwyo cymunedau, ardaloedd lleol, a busnesau yng Nghymru ar y daith i sero net.




Ein targedau

Rydym wedi rhannu ein targedau ar gyfer datgarboneiddio fel sefydliad yn ddau fath: targed lleihau carbon mesuradwy ar gyfer ein hallyriadau gweithredu, a thargedau ansoddol ar gyfer cadwyn gyflenwi a defnydd tir. Mabwysiadwyd y dull hwn i gefnogi cywirdeb targed lleihau carbon mesuradwy ar gyfer ein hallyriadau gweithredu y ceir dealltwriaeth dda ohonynt, gan sicrhau bod cynnydd yn parhau ar gyfer ffynonellau allyriadau lle mae ein dull cyfrifyddu carbon yn esblygu i fod yn fesuradwy yn y dyfodol.


Ein huchelgais ar gyfer sero net fydd lleihau allyriadau trwy lliniaru gyntaf. I gynorthwyo hyn, ein nod fydd gostyngiad o 90% o leiaf i allyriadau, sy'n cyd-fynd â'r gofynion SBTi ar gyfer sero net. Bydd hyn yn seiliedig ar linell sylfaen blwyddyn ariannol 2019–20, sy'n cyd-fynd â'n Canllaw ar gyfer Adrodd ar Garbon a gofynion SBTi ar gyfer blwyddyn gynrychiadol ddiweddar.

Rydym wedi modelu effaith mentrau ar draws ein hallyriadau gweithredu hyd at 2030. Nid yw'r modelu yn gynhwysfawr ac nid yw i gywirdeb prosiectau penodol ar gyfer adeiladau penodol, ond mae'n darparu llwybrau tebygol ar gyfer datgarboneiddio ar dair lefel: gwneud dim, datblygu momentwm, a newid wedi'i gyflymu.

Ffigur 7: Allyriadau gweddilliol 2030



Ffigur 8: Llwybrau allyriadau gweithredu Llywodraeth Cymru hyd at 2030



Mae pob senario yn dangos lefel amrywiol o weithrediad mentrau ac yn ystyried senarios uchel/isel ar gyfer ffactorau rhyngweithio allweddol fel datgarboneiddio'r grid trydan a nifer y staff sy'n defnyddio cerbydau trydan.



Ar hyn o bryd, mae ein modelu yn dangos gostyngiad o 55-75% erbyn 2030. Nid yw hyn yn ddigon i gyflawni ei huchelgais o sicrhau sero net erbyn 2030 a bydd angen i'n dull esblygu y tu hwnt i'r mentrau a fodelwyd hyd yma. Bydd angen i ni gadarnhau ac uwchraddio ein hatebion yn ein Cynllun Gweithredu, ac arloesi ymhellach i lenwi'r bwlch.

Mae'r senario newid wedi'i gyflymu yn tybio disodliad ymosodol o danwyddau ffosil. Fodd bynnag, amcangyfrifir bod allyriadau gweddilliol o'n hadeiladau a'n seilwaith a'n fflyd gorfforaethol yn unig yn dal i fod uwchben y targed lleihau carbon gweithredu o 90%. Bydd gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau bod ein gweithrediadau yn cael eu trydaneiddio cymaint â phosibl yn alinio ein hallyriadau gweddilliol â dwysedd carbon y grid trydan. Er bod hyn yn annhebygol o ddod â ni i'n targed lleihau sero net o 90% erbyn 2030, bydd yn rhoi

Llywodraeth Cymru o fod yn 'barod ar gyfer sero net' wrth i ni gynorthwyo ein grid trydan i barhau i ddatgarboneiddio.

Nid yw'r dull cyfrifyddu carbon ar gyfer allyriadau o'n cadwyn gyflenwi yn ddigon cywir i'w grwpio â'n hallyriadau gweithredu y ceir dealltwriaeth dda ohonynt. Bydd hyn yn newid wrth i'n canllawiau cyfrifyddu carbon ar gyfer y sector cyhoeddus wella. Er mwyn helpu i ysgogi cynnydd nawr, rydym wedi pennu targedau ansoddol ar gyfer datgarboneiddio ein cadwyn gyflenwi.

Hefyd, wrth i'n data wella a'r canllawiau cyfrifyddu carbon esblygu, byddwn yn ailasesu'r llinell sylfaen i gadw ein targedau yn berthnasol.

Mae gennym swyddogaeth arweinyddiaeth o ran cynorthwyo datgarboneiddiad y grid trydan yng Nghymru yn uniongyrchol. Er na fydd hyn yn lleihau ein hól troed carbon adroddadwy yn uniongyrchol, byddwn yn nodi effaith ein gwaith i gynyddu cynhyrchiant adnewyddadwy sy'n eiddo lleol.

Targed lleihau carbon gweithredu

Gostyngiad o 90% i allyriadau i gyd-fynd â'r Fenter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth yn seiliedig ar linell sylfaen 2019-20:

2,491 tCO₂e

Targedau ansoddol

1. Yn 2023, byddwn wedi cyflwyno cynllun esblygu ar gyfer asesu allyriadau carbon mewn tendrau a chontractau, a bydd hwn yn nodi pryd y bydd gofynion cyflenwyr sero net ar waith.
2. Erbyn 2025, bydd gennym ddealltwriaeth gadarn o'n hallyriadau cadwyn gyflenwi cwmplas 3 ac yn gallu nodi targed mesuradwy yn ein Cynllun Strategol nesaf.
3. Byddwn yn cyfrannu yn uniongyrchol at gapasiti cynhyrchu i fodloni'r targed perchnogaeth leol 1GW ar gyfer Cymru erbyn 2030.
4. Byddwn yn cyfrannu yn uniongyrchol at greu Coedwig Genedlaethol i ymestyn o'r gogledd i'r de.
5. Byddwn yn caffael ar sail sy'n blaenoriaethu nwyddau a chynhyrchion sydd wedi'u gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailweithgynhyrchu, eu hailwampio a'u hailgylchu.



Allyriadau gweddilliol a gwrthbwysu

I unrhyw sefydliad, mae'n anodd iawn cael gwared ar yr holl allyriadau yn gyfan gwbl. Rydym yn cydnabod y bydd rhai allyriadau gweddilliol yn parhau i fod yn rhan o'n hól troed yn 2030, hyd yn oed ar ôl i'r holl fentrau gael eu gweithredu. Ni fydd modd osgoi'r allyriadau hyn a bydd angen eu gwrthbwysu.

Mae gwrthbwysu carbon yn derm eang sy'n cyfeirio at weithgareddau sy'n lleihau neu'n osgoi allyriadau carbon, neu'n cynyddu storffeydd carbon i wneud iawn am allyriadau sy'n digwydd mewn mannau eraill. Rydym yn cydnabod nad yw sicrhau dim allyriadau o gwbl erbyn 2030 yn realistig a bydd angen lefel o niwtraleiddio trwy achosion o wrthbwysu cael gwared ar nwyon tŷ gwydr i gyflawni ein huchelgais sero net.

Mae'r canllawiau marchnad a buddsoddiad gwrthbwysu yn debygol o newid rhwng nawr a 2030 wrth i dechnoleg, polisi a marchnadoedd esblygu, felly byddwn yn dechrau trwy ddatblygu dull cadarn a chredadwy ar gyfer defnydd sy'n cyd-fynd â'n hamcanion sefydliadol. Mae rhagor o wybodaeth am ein mentrau strategol ar gyfer gwrthbwysu ar gael yn adran Menter y Cynllun Strategol hwn.



Darparu'r Cynllun Strategol

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn cyflwyno ein huchelgais sero net a'n strategaeth i'w gyflawni.

Ar draws ein sefydliad, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio nawr ar ddarparu a chynnal camau gweithredu ar yr hinsawdd. Bydd hyn yn golygu creu amgylchedd galluogi, lle mae dewis carbon isel yn dod yn arferol, wedi'i ymwreiddio yn ddiwylliannol ac yn hunan-reoleiddio.

Mewn llawer o achosion, bydd effaith penderfyniadau presennol yn cael eu sicrhau tan 2030 a'r tu hwnt, sy'n golygu bod yn rhaid i'n hymddygiadau a'n gweithredoedd gyd-fynd â sero net nawr os ydym am gyrraedd ein targed.

Mae gan bob cyflogai gyfrifoldeb personol i integreiddio sero net i'w swyddogaethau a'u gweithgareddau. Fel Llywodraeth Cymru, mae gennym gyfrifoldeb i ddarparu'r dulliau a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i droi bwriad cadarnhaol yn weithredu ystyrion ar draws y sefydliad.

Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno'r strwythurau yr ydym yn bwriadu eu rhoi ar waith i gyflawni hyn yn effeithiol. Bydd y daith yn ailadroddol ac yn anunionlin; mae'r sylfaen gref hon yn rhagofyniad i sicrhau y gallwn ymdopi ag amgylchiadau sy'n newid ac ymateb iddynt, gan roi dolenni adborth ar waith ar draws y sefydliad.

Ffigur 9: Gweithgareddau gweithredu ar yr hinsawdd, o gynllunio, i ddarparu, a chynnal



Cynllunio Gweithredu ar yr Hinsawdd

- Strwythur a Chyfrifoldeb Llywodraethu
- Ymrwymiad Argyfwng Hinsawdd
- Llinell sylfaen ôl troed carbon
- Pennu Llwybrau a Thargedau
- Strategaeth
- Cynllun Gweithredu



Cyflawni Gweithredu ar yr Hinsawdd

- Teithio Carbon Isel Staff a'r Cyhoedd
- Gwastraff a'r Economi Gylchol
- Gweithio Clyfar
- Teithio Llesol
- Ymgysylltu Cadwyni Cyflenwi
- Effeithlonrwydd Ynni
- Ynni Adnewyddadwy
- Datgarboneiddio Caffael



Cynnal Gweithredu ar yr Hinsawdd

- Cyfathrebu Llwyddiannau
- Safonau (ISO14001 ISO50001)
- Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth
- Adroddiadau Rheolwyr
- Dilysu

Llywodraethu


Cyfrifoldeb

Pwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru, y corff gwneud penderfyniadau uchaf ar gyfer Llywodraeth Cymru, sy’n gyfrifol am Gynllun Strategol Sero Net Llywodraeth Cymru. Cadeirir y Pwyllgor gan yr Ysgrifennydd Parhaol sydd wedi ymrwymo yn bersonol i gyflawni ein targed.

Y Prif Swyddog Gweithredu fydd yn gyfrifol am ddarparu’r Cynllun Strategol hwn a bydd yn gyfrifol am bolisi a gweithrediad llawer o’r ysgogiadau sydd eu hangen i wireddu’r weledigaeth o sefydliad sero net. Byddant yn cymryd cyfrifoldeb am ysgogi datblygiad a gweithrediad parhaus i roi’r Cynllun Strategol ar waith ac yn atebol am ei lwyddiant.

Bydd y Prif Swyddog Gweithredu yn gyfrifol am sefydlu llywodraethu priodol i gefnogi darpariaeth y Cynllun Strategol. Bydd y Prif Swyddog Gweithredu hefyd yn darparu adroddiadau i Bwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru bob tri mis i ddiweddar ar ddarpariaeth y Cynllun Strategol, gan dynnu sylw at gynnydd a datrys unrhyw broblemau. Bydd Pwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru yn cael ei gynnwys yn rheolaidd wrth i’r polisïau, “cynllun wedi’i gostio” a mentrau ddatblygu a phan fydd angen penderfyniadau strategol.

Ffigur 10: Strwythur llywodraethu ar gyfer datblygu a gweithredu Cynllun Strategol Sero Net Llywodraeth Cymru



Tîm y Prosiect Datgarboneiddio

Disgwylir i Dîm Prosiect Datgarboneiddio fod o dan y Prif Swyddog Gweithredu a bod yn gyfrifol am y Cynllun Strategol. Disgwylir i'w swyddogaeth gynnwys:

- › Monitro darpariaeth y mentrau a gyflwynir yn y Cynllun Strategol.
- › Datblygu Cynlluniau Gweithredu ar ddatgarboneiddio mwy manwl (wedi'u costio a graddol) mewn cydweithrediad â'r adrannau perthnasol, gan nodi yn fanwl sut y bydd y mentrau yn cael eu cyflawni.
- › Nodi perchennog priodol ar gyfer bob menter, a'r arweinwyr tîm/polisi sy'n gyfrifol am ei darpariaeth.
- › Adrodd yn ôl i'r Prif Swyddog Gweithredu ar gynnydd o ran darpariaeth y mentrau, y Cynllun Gweithredu, a'r Cynllun Strategol cyffredinol.
- › Crynhoi ac adrodd ar ddata ar allyriadau carbon o bob rhan o Lywodraeth Cymru i gyfrannu at adroddiadau blynyddol y sector cyhoeddus o allyriadau sector cyhoeddus.
- › Nodi unrhyw feysydd o risg i ddarpariaeth y Cynllun Strategol, gan roi mesurau ar waith i liniaru a/neu uwchgyfeirio i'r Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwyr perthnasol.
- › Rheoli'r ddarpariaeth o fentrau newid ymddygiad i gefnogi datblygiad a gweithrediad y Cynllun Strategol, gan gynnwys cyfathrebu a hyfforddiant, fel llythrennedd carbon.

Gweithgorau thematig

Disgwylir y byddwn yn ffurfio gweithgorau thematig sy'n cynnwys perchnogion polisi a gweithredu ar gyfer meysydd allyriadau allweddol. Byddant yn rhannu profiad ac arferion gorau ar benderfyniadau buddsoddi ac yn datblygu atebion ar y cyd i fynd i'r afael â meysydd problemus o ran allyriadau. Bydd y gweithgorau hyn yn cael eu cynorthwyo gan dîm y Prosiect Datgarboneiddio.

Arweinwyr adrannau

Bydd arweinwyr adrannau yn gyfrifol am nodi, gweithredu a monitro mentrau sy'n berthnasol i'w hadran. Bydd eu mewnbwn yn sicrhau addasrwydd y mentrau, a byddan nhw'n gyfrifol am eu gweithredu ac am y monitro cysylltiedig. Bydd eu mewnbwn yn cael ei goladu a bydd hyn yn ffurfio sail tystiolaeth allweddol er mwyn i'r Tîm Prosiect Datgarboneiddio sefydlu prosesau, offer a mentrau newydd sy'n ysgogi rhagor o ddatgarboneiddio ar draws Llywodraeth Cymru.

Yr Is-adran Newid Hinsawdd ac Ynni

Bydd yr Is-adran Newid Hinsawdd ac Ynni, wedi'i chynorthwyo gan arbenigedd technegol fel yr hyn gan y Gwasanaeth Ynni, yn darparu cymorth technegol i Dîm y Prosiect Datgarboneiddio o ran darpariaeth a gweithrediad y Cynllun Strategol.

Adnoddau a Chyllid

Mae mynediad at adnoddau a chyllid yn hanfodol i sicrhau llwyddiant y Cynllun Strategol hwn. Gan fod y newid yn yr hinsawdd wedi'i ymwreiddio mewn penderfyniadau polisi a buddsoddi, rhagwelir y bydd darpariaeth y mentrau yn gofyn am gapasiti ac adnoddau ychwanegol. Byddwn hefyd yn manteisio ar arbenigedd a chymorth allanol, fel y Gwasanaeth Ynni.

Monitro ac Adrodd

Byddwn yn adrodd yn flynyddol ar ein hól troed carbon a chynnydd yn erbyn y Cynllun Strategol gan ddefnyddio Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru, adroddiad Cyflwr yr Ystad a'r Canllaw Sector Cyhoeddus ar gyfer Adrodd ar Sero Net.

Mae parhau i wella'r broses o gasglu a dadansoddi data gweithredu o ansawdd uchel yn flaenoriaeth allweddol os ydym yn mynd i ddeall a lliniaru allyriadau carbon. Bydd y data yn hanfodol i ddatblygu ac asesu ymhellach effaith mentrau, Cynlluniau Gweithredu a darpariaeth gyffredinol y Cynllun Strategol hwn.



Bydd sefydlu proses o gasglu a defnyddio data yn effeithiol yn broses ailadroddol a fydd yn gofyn am hyblygrwydd a chyfathrebu tryloyw i optimeiddio. Byddwn yn ffurfioli cyfathrebu rhwng y rhai sy’n gwneud penderfyniadau strategol a’r rhai sy’n helpu i ddarparu neu’n cael eu heffeithio gan fentrau i sicrhau bod gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu yn barhaus i wella prosesau presennol. Bydd dull ystwyth yn cael ei hyrwyddo i sicrhau y gall systemau a ffyrdd o weithio esblygu mewn ffordd flaenllaw.

Ymwreiddio sero net

Bwriedir i lywodraethiant y Cynllun Strategol hwn sicrhau dull cydgysylltiedig o ymdrin â sero net ag uwch swyddogion yn gyfrifol am ei weithrediad.

Er bod ymrwymiad gan uwch swyddogion yn hanfodol i ganiatáu cyflwyniad ein mentrau newid yn yr hinsawdd, nid yw’n ddigonol; mae’n rhaid i holl gyflogeion Llywodraeth Cymru gefnogi ein dyheadau sero net ac ymwreiddio sero net yn eu swyddogaethau a’u hymddygiadau o ddydd i ddydd. I wneud hyn, mae’n rhaid i ni sicrhau y gall cyflogeion Llywodraeth Cymru gael effaith gadarnhaol trwy benderfyniadau cytbwys.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau sero net	
1	Integreiddio mynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd a’r argyfwng ecolegol ym mhob swydd i sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at ein huchelgeisiau a bod y mentrau hyn yn dod yn rhan annatod o swyddi pobl. Bydd y broses adolygu perfformiad yn cael ei defnyddio i sicrhau bod unigolion wedi’u halinio â’r argyfwng hinsawdd ac yn cymryd cyfrifoldeb priodol am leihau allyriadau carbon yn eu swyddi.
2	Datblygu cynllun cyfathrebu a dosbarthu mewnol sy’n codi proffil ein huchelgais sero net, cynnydd, a gweithgareddau cysylltiedig. Bydd y cynllun yn annog cyfranogiad gweithredol ac yn cynnig fforwm i gyflogeion ymgysylltu â’n gweithgareddau.
3	Hyrwyddo sefydliad grwpiau cynaliadwyedd dan arweinyddiaeth cyflogeion i hyrwyddo ymgysylltiad ar lefel llawr gwlad a chynnig fforwm i gyflogeion gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau cynaliadwy.
4	Darparu adnoddau a dulliau sy’n hysbysu ac yn mesur effaith allyriadau carbon dewisiadau busnes i rymuso pobl i wneud penderfyniadau carbon isel ac effeithlon o ran adnoddau a throi bwriad yn weithredu cadarnhaol.
5	Parhau i gyflwyno hyfforddiant llythrennedd carbon ar draws yr holl staff i ddarparu dealltwriaeth sylfaenol o gynaliadwyedd, yr argyfwng hinsawdd, a’n huchelgais sero net ar draws y sefydliad. Dilyn hyn gydag arolwg adborth i werthuso effeithiolrwydd yr hyfforddiant a sicrhau bod cynnwys yn cael ei gadw yn gyfredol.
6	Darparu hyfforddiant wedi’i arbenigo i gyflogeion mewn swyddi allweddol i roi gwybodaeth a hyder iddynt wneud penderfyniadau pendant er budd darpariaeth gynaliadwy, carbon isel, ac effeithlon o ran adnoddau.
7	Cynnwys goblygiadau allyriadau carbon mewn achosion busnes ar gyfer buddsoddi a datblygu polisi corfforaethol , wedi’u hintegreiddio â’r asesiad llesiant cenedlaethau’r dyfodol.

Mentrau

Mae’r mentrau a gyflwynir yn yr adran hon yn gosod y sylfaen ar gyfer sut y byddwn yn sicrhau sero net fel sefydliad erbyn 2030. Byddant yn helpu i ganolbwyntio ein hymdrechion ar nodi camau y gellir eu rhoi ar waith yn rhan o Gynllun Gweithredu mwy manwl, a sicrhau ein bod yn uchelgeisiol ar draws y sefydliad yn ei gyfanrwydd.

Datblygwyd y mentrau hyn ar y cyd â rhanddeiliaid o adrannau sy’n cynrychioli ffynonellau allyriadau allweddol ar draws y sefydliad ac fe’u cyflwynir fesul ffynhonnell allyriadau fel y’i diffinnir yn y Canllaw Sector Cyhoeddus ar gyfer Adrodd ar Sero Net.

Mae’r mentrau a gyflwynir yn strategol eu natur ac nid ydynt yn rhagnodol o fesurau, prosiectau, neu derfynau amser penodol. Y bwriad yw y bydd gweithgareddau Cynllun Gweithredu penodol yn cysylltu yn ôl â’r mentrau yn y Cynllun Strategol hwn. Bydd manylion fel cyllid ac effaith garbon benodol ar gyfer mesurau unigol hefyd yn cael eu pennu ar y cam Cynllun Gweithredu.

GWYBODAETH:

Cyflwynir **54 o fentrau** yn y Cynllun Strategol hwn. Cyflwynir mentrau yn y strwythur canlynol:

- 1. Adeiladau a seilwaith:**
 - 1.1** Yr ystad weinyddol;
 - 1.2** Cadw;
 - 1.3** Eiddo Datblygu Economaidd;
 - 1.4** Adeiladau newydd ac ailwampio mawr;
 - 1.5** Seilwaith trafndiaeth.
- 2. Fflyd gorfforaethol**
- 3. Teithio busnes**
- 4. Gweithio Clyfar**
- 5. Cadwyn gyflenwi – nwyddau a gwasanaethau a brynir**
- 6. Defnydd tir**
- 7. Allyriadau gweddilliol a gwrthbwysu**

1. Adeiladau a seilwaith


Mae Llywodraeth Cymru yn meddu ar ystod amrywiol o asedau tir ac eiddo yn rhan o'i gwaith o gynorthwyo pobl Cymru.

Nodir y rhai a ystyriwyd yn ôl troed carbon sefydliadol Llywodraeth Cymru ac fel pwyslais ar gyfer y Cynllun Strategol yn Ffigur 12. Cyflwynwyd y ffiniau tir ac eiddo i gyd-fynd â'r Canllawiau Sector Cyhoeddus ar gyfer Adrodd.

Nid yw asedau cyhoeddus y mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi ynddynt trwy fecanweithiau cyllid cyfalaf neu grant wedi'u cynnwys ar y sail nad Llywodraeth Cymru yw perchennog yr ased a/neu nad oes ganddi unrhyw reolaeth weithredu dros yr ased.

Mae allyriadau o asedau eiddo yn deillio o'r ynni a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau sylfaenol fel gwres, goleuadau, awyru a chyflenwi a thrin dŵr. Maent hefyd yn deillio o drydan a ddefnyddir ar gyfer goleuadau stryd ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, ar draws y Portffolio Datblygu Eiddo Economaidd ac o waredu a thrin gwastraff a gynhyrchir mewn adeiladau ar draws yr ystad weinyddol.

Ffigur 12: Rhaniad allyriadau ar gyfer adeiladau a seilwaith Llywodraeth Cymru (2019–20)



GWYBODAETH:

Mae allyriadau o'n hadeiladau a'n seilwaith yn cyfrannu at 51% o'n hól troed carbon weithredu ac maent yn faes pwyslais allweddol ar gyfer lleihau.



1.1 Yr ystad weinyddol

Mae'r ystad weinyddol yn darparu mannau gweithio a chyfarfod hyblyg modern i weision sifil, contractwyr, a Gweinidogion. Ar hyn o bryd, ceir cyfanswm o 21 eiddo swyddfa craidd⁷.

Mae'r ystad weinyddol o bwysigrwydd strategol a gweithredu hanfodol ac yn sail i ddarpariaeth busnes Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r lleoliadau gwaith wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac rydym eisoes wedi cymryd camau i leihau allyriadau carbon o'r ystad, gan arwain at ostyngiad o 76% i allyriadau ers 2010–11.

Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys ymwreiddio rheoli ynni mewn contractau rheoli cyfleusterau; optimeiddio'r ystad; a buddsoddi mewn gwresogi carbon isel, technolegau adnewyddadwy a mesurau effeithlonrwydd ynni mewn safleoedd craidd.

Ein nod canllaw rhwng nawr a 2030 yw darparu ystad weinyddol 21ain ganrif gynaliadwy sy'n gwbl gydnaws â gofynion gweithredu a prif nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru⁸.

Fel y ffynhonnell allyriadau ystad adeiledig fwyaf, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ar ein hystad weinyddol. I gyflawni ein nod sero net, i bob pwrpas mae angen i ni newid yn llawn i wres carbon isel, galluogi hyn trwy ôl-osod ein hadeiladau ar sail effeithlon o ran ynni, a sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar safle (neu'n gyfagos).

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau sero net	
8	Optimeiddio'r defnydd o le yn ein swyddfeydd trwy werthuso effaith barhaus COVID-19 ar batrymau gweithio ac asesu anghenion staff a'r busnes. Byddwn hefyd yn ymchwilio ac yn mynd ar drywydd cyfleoedd o gydleoli, naill ai drwy is-osod lleoliadau gwag neu rannu adeiladau cyhoeddus eraill.
9	Llunio cynllun darpariaeth ystad wedi'i ddiweddaru i gyflwyno safonau newydd ar gyfer lle a ffyrdd o weithio ar draws ein hystad sy'n adlewyrchu patrymau gwaith sy'n newid.
10	Bwrw ymlaen â rhaglen ôl-osod ynni trawsnewidiol ar draws yr ystad , gan gyd-fynd â safonau adeiladu sero net ac integreiddio cyfleoedd mewn cynlluniau rheoli portffolio fel bod pob adeilad wedi bod yn destun gwaith uwchraddio aml-dechnoleg erbyn 2030. Bydd y potensial o leihau allyriadau carbon yn cael ei gynnwys i werthuso a blaenoriaethu technolegau, gan gynnwys: • Disodli systemau gwresogi wedi'u pweru gan nwy gyda phympiau gwres trydan neu ffurfiau gwresogi carbon isel eraill. • Caffael dyfeisiau effeithlonrwydd uchel ar sail ddiofyn, gan gynnwys troi'r holl oleuadau i Ddeudau Allyrru Golau (LED). • Gosod capasiti ynni adnewyddadwy ar safle ar y raddfa fwyaf posibl.
11	Cyflwyno systemau rheoli adeiladau safonol ac effeithiol i awtomeiddio perfformiad effeithlon a mesur a monitro data ynni i gael rhagor o wybodaeth am optimeiddio a chyfleoedd arbed ynni.
12	Cydweithio ag eraill ar draws y llywodraeth, y sector cyhoeddus a chymdeithas ehangach i rannu'r hyn a ddysgir a chyflymu newid Llywodraeth Cymru a Chymru i adeiladau sero net.
13	Cwmpasu a gweithredu cyfleoedd ymddygiadol cyflogeion i optimeiddio arbedion effeithlonrwydd gweithredu ein hadeiladau ar draws ddefnydd ynni ac nad yw'n ynni (e.e. gwastraff a dŵr).

7 Cynllun Rheoli (Asedau) Portffolio Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru.
8 Strategaeth Leoli Llywodraeth Cymru

1.2 Cadw

Mae Cadw yn gyfrifol am warchod amgylchedd hanesyddol Cymru, ac yn rheoli 127 o safleoedd treftadaeth yn weithredol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae gan y safleoedd a'i seilwaith ategol (e.e. canolfannau ymwelwyr, gweithdai, fflyd gorfforaethol) ran bwysig i'w chwarae o ran helpu i gyflawni ein huchelgais sero net.

Rydym hefyd yn dylanwadu newid ehangach trwy annog a chynorthwyo perchnogion safleoedd hanesyddol i ddatgarboneiddio, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau a darparu cymorth cynghori yn ystod ymgynghoriadau ac asesiadau.

Pan fo'n bosibl, byddwn yn alinio ystad Cadw â'r mentrau ar gyfer adeiladau gweithredu Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae natur warchodedig ein hasedau treftadaeth yn creu cyfyngiadau a fydd yn cyfyngu ar weithrediad mewn sawl safle. Er gwaethaf hyn, er mwyn cyfrannu at gau'r bwlch allyriadau, ein dyhead yw gwella yn barhaus perfformiad ein hadeiladau hŷn ledled Cymru gan ddiogelu eu harwyddocâd ac osgoi canlyniadau na fwriadwyd.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau sero net	
14	Optimeiddio perfformiad gweithredu ar draws yr ystad dreftadaeth trwy gyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni yn barhaus a bodloni galw am ynni o ffynonellau carbon isel lle bynnag y bo'n ymarferol bosibl (gan gynnwys gwres carbon isel a chynhyrchu pŵer adnewyddadwy).
15	Croesawu cydweithrediad â chymdeithasau treftadaeth a phartneriaeth eraill i nodi ffyrdd arloesol o ddatgarboneiddio ein safleoedd treftadaeth mewn modd sy'n gwarchod neu'n gwella eu hanfod a'u cyfanrwydd.
16	Sefydlu Cadw fel arweinydd carbon isel treftadaeth ac ysgogi newid ehangach drwy ein rhwydwaith o ddegau o filoedd o aelodau Cadw a rhwydwaith cynyddol o bartneriaethau allanol. Byddwn yn helaethu ein gwaith i ysgogi newid a hyrwyddo ymddygiad cynaliadwy ymhlith unigolion a sefydliad ill dau. Byddwn yn dysgu trwy wneud ac yn ysgogi ein harbenigedd i barhau i lywio 'gwyRDDhau' safleoedd hanesyddol ac adeiladau treftadaeth gwarchodedig, gan ddiweddarau a chyhoeddi canllawiau yn rheolaidd i sicrhau bod arferion gorau yn hygyrch i'r cyhoedd.

GWYBODAETH:

Rydym eisoes wedi cymryd camau i leihau allyriadau ar draws ein hystad dreftadaeth. Gan ddechrau gyda phrosiect Eco Cadw yn 2010, rydym wedi buddsoddi dros £1 filiwn i osod goleuadau LED effeithlonrwydd uchel ar draws yr ystad, wedi gosod pŵer adnewyddadwy ar safle yn sawl un o'n safleoedd modern, wedi gosod pypiau gwresogi ffynhonnell aer yn nhri o'n safleoedd, ac wrthi'n trydaneiddio ein fflyd Cadwraeth gyfan.

1.3 Eiddo Datblygu Economaidd

Rydym yn rheoli portffolio masnachol o swyddfeydd, eiddo diwydiannol, a safleoedd datblygu. Amcan y portffolio yw darparu seilwaith at ddibenion masnachol a chynorthwyo busnesau a buddsoddiadau lleol yng Nghymru. Mae'r portffolio bron wedi'i osod yn llawn.

Mae trefniant masnachol ein hasedau a lesir yn eu rhoi y tu allan i'n ffin ôl – troed carbon yn ôl Canllaw Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar gyfer Adrodd. Fodd bynnag, fel perchnogion eiddo, rydym yn dylanwadu ar sut mae adeiladau yn cael eu cynnal a'r systemau adeiladau mewn rhai achosion. Yn yr achosion hyn, rydym yn ymrwymo i weithio ar y cyd â thenantiaid i ddatgarboneiddio'r ystad.

Ceir gwahanol fathau o drefniadau contract ar draws yr ystad economaidd ac mae'r dylanwad y gallwn ei arfer fel landlord yn amrywio rhwng mathau o les.

Rydym eisoes wedi cymryd camau i leihau defnydd o ynni mewn mathau o les lle mae gennym fwy o reolaeth weithredu, o osod systemau mesurydd i ddefnyddio technolegau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Fel landlord ag uchelgais sero net, rydym yn bwriadu cydweithredu â thenantiaid i optimeiddio perfformiad allyriadau carbon yr holl eiddo yn y portffolio.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau sero net	
17	Archwilio'r defnydd o egwyddorion les gwyrdd⁹ yn ein cytundebau les er mwyn gwella perfformiad amgylcheddol ein hadeiladau ac ymgorffori fframwaith ar gyfer cydweithrediad ac ymgysylltiad ar faterion amgylcheddol rhyngom ni a'n tenantiaid.
18	Integreiddio datgarboneiddio lefel adeilad yn ein trefn cynnal a chadw a gynlluniwyd o dan y Cynlluniau Rheoli Portffolio i nodi ac asesu ymarferoldeb mesurau sydd eu hangen i'n hadeiladau berfformio yn unol â sero net. Gan ddechrau gyda'n hadeiladau sy'n allyrru fwyaf ac yn gweithio mewn ymgynghoriad â thenantiaid, byddwn yn asesu anghenion penodol pob adeilad a meddiannydd ac yn paratoi cynlluniau gweithredu cam wrth gam, gan gynnwys costau/arbedion unrhyw gamau o'r fath mewn trafodaethau.
19	Gorfodi adrodd ar allyriadau carbon yn ein hadroddiad portffolio blyneddol i fonitro perfformiad ac atgyfnerthu mentrau strategol.



1.4 Adeiladau newydd ac ailwampio mawr

Mae adeiladau newydd a gwaith ailwampio mawr ar draws ein hasedau eiddo (gan gynnwys ein hystadau gweinyddol ac economaidd a Cadw) yn cynnig y cyfle i wella effeithlonrwydd gweithredu adeiladau presennol yn sylweddol neu greu lle effeithlonrwydd uchel ychwanegol. Fodd bynnag, os caiff ei wneud yn iawn, gallai fod costau cyfle sylweddol ac effeithiau hirdymor ar allyriadau.

Mae maint ac oes prosiectau mawr – ar gyfer adeiladau yn unrhyw ran o ystad Llywodraeth Cymru – yn eu gwneud yn elfen bwysig o’n Cynllun Strategol, gan effeithio ar ein hallyriadau byrdymor trwy garbon corfforedig¹⁰ adeilad ac allyriadau hirdymor trwy gadarnhau allyriadau gweithredu am sawl blwyddyn.

Mae gwaith ailwampio mawr yn yr arfaeth ar draws sawl adeilad ac er bod yr amlen ddylunio ar gyfer gwaith ailwampio yn llai, yn naturiol, byddwn yn mabwysiadu dull tebyg i adeilad newydd ac yn integreiddio darpariaeth a gweithrediad carbon isel trwy gydol y camau cynllunio i sicrhau cymaint o arbedion â phosibl o ran allyriadau. Bydd ein dull o ymdrin â datblygiadau adeiladau newydd yn cyd-fynd â’n polisi Adeiladau Cynaliadwy, Sero Net Cymru, a sut y bydd arferion gorau yn esblygu hyd at 2030.

Yn ogystal â datblygiadau adeiladu ar ein safleoedd gweithredu, rydym yn gosod y safonau ar gyfer datblygiadau tai lle caiff ein daliadau tir eu trosglwyddo (h.y. i ddatblygwr tai, landlord cymdeithasol cofrestredig, neu awdurdod lleol). Rydym yn ysgogi safonau carbon isel ar gyfer tai cymdeithasol trwy ein Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 – Mannau a Chartrefi

Prydferth (WDQR 2021). Mae WDQR 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gartrefi cymdeithasol newydd sicrhau dyfarniad A y Dystysgrif Perfformiad Ynni, a bydd hyn yn parhau i gael ei gryfhau i sicrhau’r effeithlonrwydd ynni mwyaf posibl ac i symud oddi wrth y defnydd o danwyddau ffosil ar gyfer gwres a dŵr poeth.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau sero net	
20	Archwilio cyfleoedd i ddefnyddio lle ac adeiladau presennol i osgoi allyriadau carbon corfforedig cysylltiedig o greu adeiladau newydd. I hysbysu’r penderfyniad, bydd asesiad carbon cylch oes yn cael ei archwilio wrth ystyried disodli neu ôl-osod adeilad i fodloni safonau sero net.
21	Mae’n rhaid i adeiladau newydd a adeiladir gan Lywodraeth Cymru gael eu dylunio a’u hadeiladu yn unol â safon sero net sy’n mynd y tu hwnt i ddyfarniad Rhagorol Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM). Yn absenoldeb unrhyw safon gyhoeddedig, byddwn yn ymgysylltu ac yn cydweithredu ag arweinwyr syniadau i fabwysiadu dull adeiladau newydd sero net addas. Gallai safonau ystyried allyriadau corfforedig, defnydd gweithredu uniongyrchol, a hwyluso teithio carbon isel (gan gynnwys ystyriaethau lleoliadol).
22	Ymgorffori Dulliau Adeiladu Modern trwy gydol y broses o ddylunio ac adeiladu unrhyw brosiect mawr. Bydd hyn yn ystyried Passivhaus, elfennau dylunio modiwlar, deunyddiau adeiladu carbon isel a darpariaeth mewn union bryd i sicrhau bod allyriadau carbon cyn lleied â phosibl.

10 Yr allyriadau carbon sy’n gysylltiedig â chynhyrchu cynnyrch (e.e. deunyddiau adeiladu), trafnidiaeth, gosod ar safle, a gwaredu ar ddiwedd oes.

1.5 Seilwaith trafnidiaeth

Rheolir y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a’i seilwaith cysylltiedig (goleuadau stryd, twnelau ac ati) gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru.

Ein hamcan allweddol yw cynnal rhwydwaith trafnidiaeth diogel ac effeithlon ar draws y rhanbarth i gyflymu datblygiad economaidd a hwyluso mynediad at wasanaethau a chyflogaeth. I gyflawni hwn, bydd angen i ni ymateb i effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd.

Mae allyriadau yn deillio o’r ynni a’r deunyddiau sydd eu hangen i weithredu, cynnal, a gwella’r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Trydan i oleuo a phweru ein hadeiladau, twnelau, arwyddion ochr ffordd a goleuadau stryd yw’r ffynhonnell allyriadau gweithredu uniongyrchol fwyaf ar draws y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (30%). Mae allyriadau ymwreiddiedig (anuniongyrchol) sylweddol hefyd yn gysylltiedig â deunyddiau adeiladu a ddefnyddir i adeiladu a chynnal y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (gweler nwyddau a gwasanaethau a brynir).

Mae’n rhaid i ddatgarboneiddio ein hasedau ddigwydd yng nghyd-destun safonau diogelwch cenedlaethol. Rydym eisoes wedi rhoi mesurau ar waith i leihau allyriadau carbon o seilwaith y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol: bylbiau LED effeithlonrwydd uchel sy’n goleuo pob twnnel a 50% o oleuadau stryd, ac rydym yn treialu ffyrdd arloesol o arbed ynni ar draws y rhwydwaith.

Er enghraifft, rydym wrthi’n archwilio gweithredu “pylu dynamig” ar dras ein rhwydwaith goleuadau stryd cefnffyrdd, gan ganiatáu addasiad awtomatig i oleuadau yn seiliedig ar amodau traffig mewn amser real.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau sero net	
23	Asesu ymarferoldeb a lle bynnag y bo’n bosibl, gosod dulliau cynhyrchu ynni ar safle i sicrhau’r gyfran fwyaf bosibl o drydan di-garbon a ddefnyddir ar ein safleoedd.
24	Gosod technoleg effeithlonrwydd uchel ar sail ddiofyn ar draws ein seilwaith trafnidiaeth (twnelau, arwyddion ffordd, goleuadau stryd). Mae hyn yn cynnwys newid gweddill ein rhwydwaith goleuadau cefnffyrdd i LEDs, i sicrhau bod 100% o’r rhwydwaith cefnffyrdd yn cael ei oleuo gan lampau LED erbyn 2030 – gan gydnabod y bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol mewn gwaith galluogi, gan gynnwys gwaith uwchraddio angenrheidiol i seilwaith ategol (colofnau goleuadau, ceblau).
25	Hysbysu safonau cenedlaethol a chymryd rhan weithredol mewn trafodaethau ac ymgynghoriadau ynghylch lleihau’r defnydd o ynni o’r seilwaith trafnidiaeth gan gynnal safonau diogelwch a gweithrediad.
26	Cyflwyno pylu dynamig a thocio goleuadau ar draws ein rhwydwaith ffyrdd strategol.



2. Fflyd gorfforaethol

Mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn gweithredu'r fflyd gorfforaethol fwyaf ar draws Llywodraeth Cymru ac yn berchen ar 23 o wahanol fathau o gerbydau ar draws ei gweithrediadau, neu'n eu lesu. Defnyddir 172 o asedau cerbydau eraill ar draws cyfarwyddiaethau eraill at wahanol ddibenion (cerbydau gweinidogion, cynnal a chadw ffyrdd, cefnogaeth, goruchwyliaeth). Mae gwahanol fodelau perchnogaeth cerbydau yn golygu gwahanol lefelau o ddylanwad i Lywodraeth Cymru leihau allyriadau.



Mae gofyniad gweithredu ein fflyd yn uchel ac yn gyfrifol am 8% o'n hallyriadau gweithredu. Rydym eisoes wedi dechrau cael gwared yn raddol ar gerbydau a bwerir yn gyfan gwbl gan fotor tanio mewnol pan fo dewis amgen ymarferol yn bodoli ac yn parhau i archwilio cyfleoedd optimeiddio fel ad-drefnu'r fflyd.

Byddwn yn cyflymu'r newid i gerbydau allyriadau isel iawn (trydan yn nodweddiadol) ar draws pob cyfarwyddiaeth a cherbyd, er ein bod yn cydnabod bod cynnydd yn dibynnu'n rhannol

ar newidiadau sylweddol i arloesedd ar gyfer cyfarpar cryf (sy'n hanfodol ar gyfer parhau i gynnal a chadw'r Rhwydwaith Ffyrrdd Strategol yn effeithiol), cynnydd i'r amrywiaeth o gerbydau trydan, a chyflwyniad pwyntiau gwefru cerbydau trydan rhwng nawr a 2030.

Rydym yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Ynni ar hyn o bryd i asesu oed a milltired ein fflyd gorfforaethol, i ystyried hyn ochr yn ochr â theithio busnes a cheir cronfa, ac i lunio dull wedi'i dargedu ar gyfer ad-drefnu ac uwchraddio cerbydau trydan.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau sero net	
27	Cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r fflyd ar draws sefydliad Llywodraeth Cymru i nodi cyfleoedd i ad-drefnu a newid tanwydd ar draws y fflyd. Bydd yr adolygiad yn ystyried arbenigeddau cerbydau (e.e. gofyniad halio) a llunio amserlen ar gyfer disodli cerbydau yn raddol hyd at 2030.
28	Ehangu'r rhwydwaith gwefru cyflym ar gyfer cerbydau trydan ar draws ein safleoedd a'r Rhwydwaith Ffyrrdd Strategol trwy gwblhau astudiaethau dichonoldeb ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws bob safle, gan ymgysylltu â gweithredwyr rhwydwaith trydan i asesu gofynion ar gyfer uwchraddio'r seilwaith trydanol ac archwilio cyfleoedd ar gyfer trefniadau cydweithredol gyda gweithredwyr fflyd eraill.
29	Rhoi'r gorau i fuddsoddi mewn cerbydau motor tanio mewnol , lle bynnag y bo'n dechnegol ymarferol, yn unol â'r ymrwymiad i bob car a cherbydau nwyddau ysgafn newydd fod yn rhai allyriadau isel iawn (ULEV) erbyn 2025. Bydd hierarchaeth flaenoriaeth yn cael ei defnyddio, gan archwilio'r holl opsiynau ar gyfer trydaneiddio rhannol i lawn, a chaffael cerbydau motor tanio mewnol ar gyfer y cerbydau mwyaf arbenigol yn unig pan nad oes unrhyw ddewis ULEV ymarferol yn bodoli eto.
30	Cyflwyno telemateg ar draws ein fflyd i ddeall patrymau gyrru a chyflwyno dulliau newid ymddygiad wedi'u targedu i optimeiddio defnydd ynni'r fflyd.
31	Ymgysylltu â gweithgynhyrchwyr peiriannau cyfarpar carbon isel a fflyd trwm i ddeall datblygiadau i dechnolegau carbon isel fel cerbydau cell tanwydd trydan a hydrogen batri, a chymryd rhan weithredol mewn treialon peilot i gynorthwyo eu datblygiad. Bydd camau interim (e.e. biodanwyddau) hefyd yn cael eu harchwilio tra bod y technolegau hyn dal yn newydd a ddim yn addas ar gyfer defnydd graddfa lawn.

3. Teithio busnes

Adroddir ar deithiau a gwblheir ar gyfer gweithgareddau sy’n gysylltiedig â busnes mewn cerbydau nad ydynt yn eiddo i Lywodraeth Cymru o dan deithio busnes.

Mae COVID-19 yn newid tybiaeth pobl o deithio busnes, ac mae rhai teithiau y tybiwyd ar un adeg fel rhan hanfodol yn cael eu cyflawni yn rhwydd ar-lein erbyn hyn. Wedi dweud hynny, bydd teithio busnes yn parhau i fod yn rhan bwysig o’n gweithrediadau a bydd ein hymdrechion i optimeiddio ein defnydd ohono yn cyfrannu at ein targed sero net yn 2030.


Rydym eisoes wedi rhoi sawl mesur ar waith i leihau ein hallyriadau teithio busnes: rhith-gyfarfodydd yw’r opsiwn diodyn i unrhyw gyfarfod a drefnir gan Lywodraeth Cymru, mae cynaliadwyedd wedi’i ymwreiddio yn ein polisïau teithio a chynhaliach, ac rydym wedi sefydlu fframweithiau sy’n cyfyngu allyriadau carbon pan fo teithio yn angenrheidiol.

Hyd at 2030, byddwn yn parhau i nodi a gweithredu mentrau sy’n lleihau milltiroedd teithio, a phan ystyrir ei fod yn angenrheidiol, sicrhau mai dulliau teithio carbon isel iawn yw’r opsiwn diodyn.

GWYBODAETH:

Milltiroedd ceir preifat yw’r cyfrannwr mwyaf at ein teithiau busnes.

Ffigur 13: Rhaniad allyriadau teithio busnes Llywodraeth Cymru



Yr hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau sero net	
32	Adolygu polisi teithio busnes yn rheolaidd i sicrhau bod ei uchelgais a’i weithrediad yn cyd-fynd â’n targed sero net ac yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio’r opsiynau teithio carbon isaf. Bydd meini prawf a metrigau allweddol, fel ein map carbon llogi ceir, yn cael eu hadolygu a’u diweddarau i sicrhau eu bod yn dal i fod yn uchelgeisiol o ran cyflawni gostyngiadau i allyriadau carbon.
33	Cau’r bwlch rhwng polisi teithio busnes a gweithredu trwy ymgysylltu â chyflogeion i ddeall y rhesymau sy’n sail i’r bwlch gweithredu a nodi cyfleoedd i’w leihau. Bydd maint a chyfansoddiad allyriadau teithio busnes yn cael eu monitro i ddeall effeithiolrwydd mentrau a roddwyd ar waith.
34	Darparu dulliau a chanllawiau ar effaith dewisiadau teithio o ran allyriadau carbon i rymuso cyflogeion i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy. Bydd y dulliau yn cael eu hymwreiddio mewn prosesu gwneud penderfyniadau am deithio busnes i sicrhau mai teithio carbon isel yw’r opsiwn diodyn, gan wneud cyfiawnhad yn ofynnol ar gyfer dulliau teithio carbon uwch gan gynnwys teithio pellter hir ac awyr.

4. Gweithio clyfar

Mae gweithio clyfar yn cyfeirio at ffordd fwy hyblyg a symudol o weithio, gan optimeiddio'r defnydd o leoliadau gwaith a thechnoleg fodern. Mae gweithio clyfar yn cynnig cyfle i leihau allyriadau gan ei fod yn cwmpasu'r rhyngweithio rhwng defnyddio swyddfeydd, gweithio gartref a chymudo.


Mae cyflogaeion yn cymudo a defnydd o ynni mewn swyddfeydd yn elfennau mawr o'n hól troed sylfaenol. Fodd bynnag, mae COVID-19 yn arwain at newidiadau parhaus i'n diwylliant gweithio a rhagwelir newid parhaol i batrymau gweithio hybrid i lawer yn ein gweithlu.

Bydd dynameg newidiol gwaith yn effeithio ar gyfansoddiad ein hallyriadau, a bydd gostyngiadau i filltired cymudo a defnydd o ynni mewn swyddfeydd yn cyfateb i gynnydd mewn defnydd o ynni yn y cartref o weithio gartref. I sicrhau sero net, mae'n rhaid i ni ystyried dull system gyfan a sefydlu system gweithio hybrid effeithlon sy'n optimeiddio allyriadau sy'n deillio o bob un o'r tair ffynhonnell.

Yn fewnol, rydym hefyd wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl Gweithio Clyfar traws-ddisgyblaeth i archwilio ffyrdd y gallwn weithio yn fwy "clyfar" i leihau effeithiau amgylcheddol gan gynnal manau cyfleus a chynhyrchion i bobl weithio. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Cynllun Ceir Gwyrdd i leihau allyriadau o gyflogaeion yn teithio pan fo'n ofynnol, a chomisiynu astudiaeth newid ymddygiad Sector Cyhoeddus i ddeall y rhwystrau i fathau carbon isel o gymudo.


GWYBODAETH:

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno uchelgais i 30% o weithlu Cymru fod yn gweithio gartref neu'n gyfagos yn y pedair mlynedd nesaf ac rydym wedi cyhoeddi strategaeth i gyflawni'r nod hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd yn weledol o ran cyflawni'r uchelgais hwn – caiff effaith gweithio clyfar gartref ei harchwilio ymhellach yn Atodiad C.



Yr hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau sero net

35	Datblygu safbwynt corfforaethol ar gyfer ein dull o “weithio’n glyfar” , wedi ei hysbysu gan adolygiad o batrymau gweithio a’u heffeithiau o ran allyriadau carbon, a fydd yn rhoi cyfeiriad strategol ac yn hysbysu penderfyniadau buddsoddi.
36	Cynnwys allyriadau o weithio gartref yn ein cynllunio cynaliadwyedd i ddeall maint yr allyriadau hyn a gweithio’n rhagweithiol gyda staff i leihau’r defnydd ynni ychwanegol o’u gweithio gartref.
37	Optimeiddio gwasanaethau TG carbon isel presennol a pharhau i fuddsoddi mewn seilwaith digidol sy’n galluogi teleweithio cynhyrchiol a chysylltedd ar draws y sefydliad heb fod angen teithio.
38	Cynnal arolwg ‘ffyrdd o weithio’ bob yn ail flwyddyn i leihau ein dibyniaeth ar feincnodau a nodi mentrau datgarboneiddio wedi’u teilwra yn gysylltiedig â gweithio clyfar, gan gynnwys gweithrediad a defnydd wedi’u hoptimeiddio o le swyddfa a theleweithio.
39	Alinio ein cynllun â’r Hierarchaeth Teithio Cynaliadwy¹¹ ac annog staff i fanteisio arno i newid arferion cymudo i ddulliau teithio carbon isel. Byddwn yn ymgysylltu â staff i ddeall rhwystrau presennol i’r defnydd o deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, gan weithio ar y cyd â gweithredwyr lleol i nodi cyfleoedd sy’n annog pobl i’w defnyddio.
40	Darparu amgylchedd galluogi ar gyfer teithio carbon isel , gan gynnwys seilweithiau ffisegol fel mannau storio beiciau, cawodydd, gwefrwyrr cerbydau trydan, a pholisïau galluogi fel ein cynlluniau ceir gwyrdd a beicio i’r gwaith.
41	Hyrwyddo i staff Llywodraeth Cymru y cynllunio presennol (ac unrhyw rai yn y dyfodol) sy’n cynnig cyngor a chymorth i ddeiliaid tai Cymru ôl-osod eu cartrefi tuag at safonau sero net i helpu ein cyflogeion leihau defnydd ynni o weithio gartref, gan leihau eu biliau cyfleustodau cartref yn ogystal â chyfrannu at ein targed sero net sefydliadol.



5. Cadwyn gyflenwi, nwyddau a gwasanaethau a gaffaelir

Mae Llywodraeth Cymru yn gwario tua £440 miliwn yn prynu nwyddau, gwasanaethau, gwaith, TGCh ac offerynnau/gwasanaethau Digidol fel y gallwn gyflawni ein gweithgareddau craidd yn effeithiol.

Allyriadau o ddarparu'r nwyddau a'r gwasanaethau hyn yw bron i 85% o'n hól troed sylfaenol, sy'n golygu mai dyma'r cyfrannwr mwyaf at allyriadau Llywodraeth Cymru ac yn gwneud datgarboneiddio ar draws y gadwyn gyflenwi yn flaenoriaeth allweddol.


Mae cael gafael ar ddata allyriadau gan gyflenwyr a'u dosbarthu yn broses gymhleth sy'n cymryd llawer o amser felly, er mwyn cychwyn arni, rydym wedi defnyddio dirprwyon seiliedig ar wariant fel cam cyntaf amherffaith ond angenrheidiol i amcangyfrif allyriadau. Yn rhan o'n huchelgais sero net, bydd gwella ansawdd data yn mynd law yn llaw â mentrau sy'n lleihau allyriadau yn uniongyrchol ar draws ein cadwyn gyflenwi.

Lleihau allyriadau o nwyddau a gwasanaethau a gaffaelir yw un o'n heriau mwyaf a bydd yn golygu cynnwys cyflogaion o bob rhan o'r sefydliad. Ein gweledigaeth yw contractio gwaith gyda chyflenwyr sy'n cymeradwyo sero net ac yn ymwreiddio datgarboneiddio yn narpariaeth eu nwyddau a'u gwasanaethau yn unig.

Mae ein tîm caffael canolog eisoes wedi datblygu sawl dogfen i gynghori adrannau ar sut i integreiddio cynaliadwyedd yn y broses o wneud penderfyniadau caffael. Er enghraifft, mae'n rhaid i bob contract sydd werth £5 miliwn neu fwy (sy'n cwmpasu tua 65% o'n hallyriadau sylfaenol amcangyfrifedig) bellach gynnwys cynlluniau lleihau allyriadau carbon yn rhan o'u tendrau.

GWYBODAETH:

Amcangyfrifir bod allyriadau o nwyddau a gwasanaethau a brynir yn cyfrannu 84% (131,900 tCO₂e) at gyfanswm ôl troed carbon Llywodraeth Cymru, y rhagwelir bod y rhan fwyaf ohono yn dod o gontract yn gysylltiedig â gwasanaethau adeiladu adeiladau.



Yr hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau sero net

42	Sefydlu cynaliadwyedd fel rhan graidd o swyddogaeth pobl yn ystod y cylch caffael a darparu hyfforddiant a chanllawiau ffurfiol i hysbysu a grymuso cyflogeion i wneud penderfyniadau pendant i gynllunio darpariaeth carbon isel gynaliadwy sy'n cyd-fynd â thwf yr economi gylchol yng Nghymru.
43	Gwella prosesau casglu data a mesur allyriadau i leihau ein dibyniaeth ar ddirprwyon economaidd a gwella ein gallu i olrhain allyriadau yn gywir; newid i arferion casglu data penodol i gwmnïau a gwasanaethau i fesur yr allyriadau y gellir eu priodoli i'n nwyddau a'n gwasanaethau a brynir.
44	Nodi pocedi o arfer gorau a datblygu cyfleoedd ar draws adrannau caffael. Bydd proses a gyd-gysylltir yn ganolog yn hybu aliniad a mabwysiadu ar draws y sefydliad, gan ddefnyddio Nodiadau Polisi Caffael Cymru perthnasol fel sail ar gyfer arferion gorau.
45	Datblygu dulliau a chanllawiau wedi'u teilwra i gynorthwyo integreiddiad cynaliadwyedd ar bob cam o'r cylch caffael. Bydd ymgysylltu yn digwydd â'r corff gweithredu i sicrhau ei fod yn gweithio, a bydd arweinwyr uwch yn chwarae rhan gyfarwyddol yn y dosbarthiad i sicrhau mabwysiadu a gweithrediad ar draws y sefydliad. Esblygu'r dull fel bod rhinweddau carbon isel yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag ansawdd, cost, a gwerth cymdeithasol fel metrig penderfynu allweddol wrth dendro.
46	Cyfathrebu ein huchelgeisiau ar gyfer sero net i'n cadwyni cyflenwi a gofyn i'n cyflenwyr ddod ar y daith hyd at 2030. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ymrwymiad a chydweithrediad â chyflenwyr ar gyfer esblygu gofynion adrodd ar gyfrifyddu carbon a gwelliant datgarboneiddio parhaus.



6. Defnydd tir

Rydym yn meddu ar amcangyfrif o 1,534 hectar o dir sydd naill ai'n eiddo neu'n destun trefniadau lesu tir amrywiol, gyda'r amcan o gefnogi polisi datblygu economaidd ehangach i ddarparu Cymru fwy llewyrchus a thecach. Yn seiliedig ar y canllaw sector cyhoeddus ar gyfer adrodd, nid yw'r tir lle nad ydym yn gyfrifol am ei reoli a'i weithredu fel mater o drefn wedi'i gynnwys yn ein hól troed carbon.

Efallai y bydd rhywfaint o dir Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tai yn y dyfodol. Nid ydym yn datblygu nac yn caffael gwaith adeiladu tai yn uniongyrchol, yn hytrach, rydym yn trosglwyddo tir datblygu y cytunwyd arno i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, awdurdodau lleol, a datblygwyr tai. Mae hyn fel rheol ar gyfer darparu tai cymdeithasol, ac rydym yn sicrhau bod rhinweddau carbon isel y datblygiadau hyn mor fawr â phosibl trwy ein safonau WDQR 2021 (gweler adran 1.4).

Llywodraethir polisi cynllunio defnydd tir cenedlaethol Cymru gan Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040¹², sy'n cyflwyno cynllun datblygu gofodol i wneud yn siŵr bod defnydd tir yn y dyfodol yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n rhaid i ni ystyried sut y gallwn ddiwallu'r anghenion hyn orau gyda'n hasedau tir presennol yn ogystal â chyflawni ein huchelgais sero net.

Prin yw'r canllawiau ar sut y mae sefydliadau yn cyfrifyddu allyriadau carbon sy'n ymwneud â'u hasedau tir ac yn adrodd arnynt¹³, ac awgrym lefel uchel yn unig sydd gennym ar hyn o bryd o effaith allyriadau carbon ein tir, ei botensial, a phrosiectau blaenoriaeth

Hyd at 2030, bydd angen gwelliannau i ddata defnydd tir a dull cyfrifyddu carbon ochr yn ochr â datblygiad polisi i ni wella ein hasedau tir a chydabod effaith carbon gadarnhaol unrhyw ddatblygiadau sy'n digwydd arnynt.

Rydym yn archwilio sut i adeiladu ar y swyddogaeth gref y mae'r tir yr ydym yn meddu arno dros Gymru eisoes wedi ei chyflawni o ran bod yn gartref i weithfeydd cynhyrchu ynni adnewyddadwy, i 440 MW o gapasiti a osodwyd gan gynnwys y fferm wynt fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn archwilio sefydlu datblygwr ynni adnewyddadwy sy'n eiddo cyhoeddus i fwrw ymlaen â phrosiectau ynni adnewyddadwy graddfa fawr ar yr ystad gyhoeddus.



¹² Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 | LLYW.CYMRU

¹³ Disgwyli'r GHG Protocol is gyhoeddi 'Land Sector and Removals Guidance' ddechrau 2023.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau sero net

47	Adolygu ein deiliadau tir a'n hasedau seilwaith gwyrdd i ddeall math, dynodiad, a statws perchnogaeth pob safle.
48	Nodi a blaenoriaethu cyfleoedd strategol allweddol lle gallai cynnal a/neu addasu ein deiliadau tir sy'n eiddo i ni sicrhau'r budd amgylcheddol mwyaf sylweddol. I sicrhau sero net, dylai mentrau strategol ganolbwyntio ar ardaloedd mwy â photensial atafaelu carbon uchel (e.e. mawndir, coedwigaeth) a thir sy'n addas ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy (e.e. safleoedd tir llwyd). Bydd y cyfleoedd a nodir yn cyfrannu yn uniongyrchol at yr uchelgais o gael Coedwig Genedlaethol yng Nghymru.
49	Cynnal a gwella cydnherthedd ecosystemau a dalfeydd carbon trwy gydnabod y gwasanaethau ecosystem y maent yn eu darparu a chynnwys hyn yn y broses o wneud penderfyniadau, ochr yn ochr ag amcanion cymdeithasol ac economaidd ehangach.
50	Targedu enillion net amgylcheddol ar gyfer datblygiadau , i sicrhau bod yr effaith negyddol ar yr amgylchedd cyn lleied â phosibl a chynnig cyfleoedd ar gyfer gwella, yn enwedig mewn ardaloedd y nodwyd eu bod yn ecolegol neu'n amgylcheddol arwyddocaol.
51	Gwneud adroddiad ynni yn ofynnol ar gyfer pob gweithgarwch datblygu mawr (gan Lywodraeth Cymru neu ddatblygwyr trydydd parti) ar y tir yr ydym yn berchen arno , a fydd yn cyflwyno sut y bydd y datblygiad yn sicrhau cymaint o gyfleoedd effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy â phosibl.



7. Allyriadau gweddilliol a gwrthbwysu

Dim ond pan fyddwn wedi darganfod sut y byddwn yn lleihau ein hallyriadau cymaint â phosibl y byddwn yn ystyried cael gwared ar nwy tŷ gwydr i wrthbwysu unrhyw allyriadau gweddilliol i fodloni ein targedau. Fodd bynnag, byddwn yn bwrw ymlaen â phrosiectau cael gwared ar nwyon tŷ gwydr dros y blynyddoedd nesaf fel na cholli cyfleoedd ar gyfer y bydd ecolegol a graddfa wedi'i haeddfedu o waith cael gwared ar nwyon tŷ gwydr yng Nghymru erbyn 2030.

Cydnabyddir nad oes unrhyw safonau pendant ar hyn o bryd i ddiffinio a llywio arferion gorau ar gyfer gwrthbwysu – yn enwedig i'r sector cyhoeddus, lle ystyrir yn gynyddol bod dulliau gwrthbwysu confensiynol (h.y. prynu credydau ar y Farchnad Wrthbwysu Wirfoddol) yn anaddas ac mae strategaethau arloesol yn cael eu hystyried.

Mae'r farchnad wrthbwysu yn ddynamig, ac rydym yn rhagweld datblygiad technoleg a pholisi sylweddol rhwng nawr a 2030. Er gwaethaf yr ansicrwydd y mae hyn yn ei awgrymu, byddwn yn dechrau datblygu dull cadarn a chredadwy sy'n cyd-fynd â'n hamcanion sefydliadol.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau sero net

52	Cytuno ar gyfres o egwyddorion blaenoriaeth yn gysylltiedig â gwrthbwysu, gan fod yn atebol am ein hamcanion sefydliadol, cyd-fuddion posibl, a safonau perthnasol (e.e. SBTi; egwyddorion Rhydychen ar gyfer gwrthbwysu carbon sy'n cyd-fynd â sero net, canllawiau GHG Protocol newydd ar gyfer defnydd tir). Byddwn yn gwerthuso dulliau gwrthbwysu sydd ar gael yn drylwyr i ddeall eu haliniad â'n blaenoriaethau a gytunwyd, gan gynnwys cydnabod budd ecolegol yng Nghymru.
53	Cyhoeddi datganiad sefyllfa gwrthbwysu sy'n amlinellu ein dull gwrthbwysu yn dryloyw , gan gynnwys ein blaenoriaethau a rhestr fer o dechnolegau a dulliau posibl. Byddwn yn ystywyth ac yn sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau arfer gorau gennym, ac yn addasu ein strategaeth wrthbwysu i gyd-fynd yn briodol.
54	Byddwn yn cyflwyno gwrthbwysu ar gyfer allyriadau nodd eu lleihau na allwn eu dileu ein hunain. Bydd hyn yn gofyn am gynllunio i sicrhau bod aeddfedrwydd ein prosiectau gwrthbwysu ar raddfa i gydbwysu ein hallyriadau yn 2030.



Y camau nesaf

Datblygu ein Cynllun Gweithredu


Mae'r Cynllun Strategol hwn yn gosod y sylfeini i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen tuag at sero net fel sefydliad a chynorthwyo'r sector cyhoeddus ehangach i sicrhau sero net yn ei gyfanrwydd erbyn 2030. Mae angen mwy o waith nawr i bennu Cynllun Gweithredu penodol i gyflawni'r newid sydd ei angen, a bydd hon yn ddogfen waith fewnol ar gyfer ein rhaglen ddatgarboneiddio, a bydd yn weithredol erbyn mis Mawrth 2023.

Y cam cyntaf allweddol fydd rhoi'r strwythur llywodraethu ar waith a datblygu mwy o ymgysylltiad ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn cael ei ysgogi gan y Prif Swyddog Gweithredu fel yr uwch swyddog cyfrifol am gyflawni ein newid tuag at sero net.

I fynd i'r afael â'r mentrau a nodir, bydd Cynllun Gweithredu ymarferol yn cael ei ddatblygu ac yn gweithredu fel dogfen reoli allweddol. Bydd hyn yn cynnwys gweithredoedd a gweithgareddau penodol i fynd i'r afael â phob menter a phennu amserlenni, cyfrifoldebau, gofynion ariannol, a risgiau darparu.

Cymryd camau a chynnal momentwm

Rydym eisoes wedi dechrau datgarboneiddio ein gweithrediadau mewn meysydd penodol; fodd bynnag, mae'r Cynllun Strategol hwn yn ei gwneud yn eglur mai dim ond dull cyfannol a thrylwyr o ddatgarboneiddio, sy'n effeithio ar bob rhan o'n sefydliad, ein gweithrediadau, a'n gweithlu, fydd yn ddigonol i sicrhau sero net.



Ni fydd darparu'r Cynllun Strategol hwn yn rhwydd – bydd yn gofyn am gymorth o bob rhan o'r sefydliad presennol yn ogystal ag adnoddau a chyllid pellach. Cyfrifoldeb Tîm y Prosiect Datgarboneiddio ac arweinwyr timau adrannol yw sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ar draws y sefydliad a sicrhau adnoddau ychwanegol i fwrw ymlaen â datgarboneiddio ein gweithgareddau.

Sicrhau sero net

Yn cychwyn nawr, byddwn yn cynyddu graddfa a chyflymder ein proses o ymwreiddio datgarboneiddio yn ein sefydliad a'n gweithrediadau ac yn gwerthuso'r adnoddau y bydd eu hangen i ddarparu'r Cynllun Strategol hwn. Mae ein modelu yn dangos yr angen i sicrhau bod graddfa'r gostyngiadau carbon mor fawr â phosibl i fod yn *barod ar gyfer sero net*, a mynd ymhellach i *lenwi'r bwlch* i sero net erbyn 2030.

I gyflawni ein huchelgeisiau sero net yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen iddi arwain drwy esiampl. Nid yw mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn cael ei ysgogi yn syml gan yr angen i fodloni targedau a chyflawni ymrwymadau, mae'n golygu diogelu cenedlaethau'r dyfodol, diogelu Cymru, a chydabod y cyfleoedd i Gymru o'r daith drawsnewidiol hon.



Atodiad A: Allyriadau yn ôl cwmpas

Mae'r protocol nwyon tŷ gwydr¹⁴ yn ddull a ddefnyddir ac a dderbynnir yn eang ar gyfer cyfrifyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r protocol nwyon tŷ gwydr yn categoreiddio allyriadau yn dri chwmpas. Ail-gyfrifwyd ôl troed sylfaenol Llywodraeth Cymru yn unol â'r protocol nwyon tŷ gwydr i alluogi ymarferion cymharu.

Cwmpas	Disgrifiad	tCO ₂ e sylfaenol (BA 2019–20)
Cwmpas 1	Allyriadau a allyrrir yn uniongyrchol gan y sefydliad (h.y. nwy naturiol a losgir mewn bwyler nwy, allyriadau egsôst o gerbyd).	2,849
Cwmpas 2	Allyriadau a allyrrir yn anuniongyrchol o ddefnyddio trydan, gwres neu ager a brynir.	9,080
Cwmpas 3	Yr holl allyriadau anuniongyrchol eraill, fel echdynnu a chynhyrchu deunyddiau a thanwyddau a brynir, gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth mewn cerbydau nad yw'r endid adrodd yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, defnydd dŵr, gwaredu gwastraff, ac ati.	144,616
CYFANSWM		156,545



14 www.ghgprotocol.org/

Atodiad B: Tybiaethau llwybr

Ffynhonnell allyriadau	Newid wedi'i gyflymu	Datblygu momentwm
Adeiladau a seilwaith	- Datgarboneiddiad wedi'i gyflymu y cyflenwad trydan cenedlaethol. - Lleihau'r Ystad Weinyddol (gostyngiad o 17.8% i faint yr ystad yn ôl arwynebedd llawr). - Gwaith uwchraddio effeithlonrwydd ynni (gan gynnwys goleuadau, motorau, oerwyr). - Solar ffotofoltäig wedi'i osod ar bedwar safle (Sarn Mynach, Rhyd-y-car, Rhodfa Padarn, Parc Cathays). - Trydaneiddio dwys ar draws yr Ystad Weinyddol, â defnydd tanwydd ffosil gweddilliol ymylol.	- Datgarboneiddiad graddol y cyflenwad trydan cenedlaethol. - Lleihau'r ystad weinyddol (gostyngiad o 12.8% i faint yr ystad yn ôl arwynebedd llawr). - Gwaith uwchraddio effeithlonrwydd ynni (gan gynnwys goleuadau, motorau, oerwyr). - Solar ffotofoltäig wedi'i osod ar bedwar safle (Sarn Mynach, Rhyd-y-car, Rhodfa Padarn, Parc Cathays). - Gosod pypiau gwres trydan ar draws yr Ystad Weinyddol, â rhywfaint o ddefnydd tanwydd ffosil gweddilliol ymylol.
Gweithio clyfar	Modelwyd trefniant gweithio hybrid 50:50 yn 2030, mae hyn yn ystyried y canlynol: - Cynnydd i ddefnydd ynni mewn swyddfeydd a milltired cymudo. - Cynnydd i ynni domestig ychwanegol yn gysylltiedig â gweithio gartref. - Gwelliannau effeithlonrwydd ynni domestig yn rhagori ar dueddiadau cenedlaethol (gostyngiad o 5% yn flynyddol), a ffynonellau gwresogi yn newid i drydan o nwy naturiol (newid o 40% erbyn 2030).	Modelwyd trefniad gweithio hybrid 70:30: - Cynnydd i ddefnydd ynni mewn swyddfeydd a milltired cymudo. - Cynnydd i ynni domestig ychwanegol yn gysylltiedig â gweithio gartref. - Gwelliannau effeithlonrwydd ynni domestig yn cyd-fynd â thueddiadau cenedlaethol (gostyngiad o 3% yn flynyddol), a ffynonellau gwresogi yn newid i drydan o nwy naturiol (newid o 20% erbyn 2030).

Ffynhonnell allyriadau	Newid wedi'i gyflymu	Datblygu momentwm
Cymudo	- Newid model i ddulliau teithio carbon isel sy'n rhagori ar dueddiadau cenedlaethol. O'i gymharu â 'datblygu momentwm', disodlir 35% ychwanegol o filltiredde ceir preifat gan deithio llesol. - Erbyn 2030, mae'r cyflogai cyffredin yn gyrru cerbyd sy'n cydymffurfio ag ULEV (75 gCO₂/km). - Cyflogeion yn defnyddio eu swyddfa agosaf un diwrnod yr wythnos. - Tueddiadau lefel genedlaethol tuag at gerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) a phob car llog a bws i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2028 a 2035 yn eu trefn.	- Newid model i ddulliau teithio carbon isel sy'n cyd-fynd â thueddiadau cenedlaethol. - Cyflogeion yn defnyddio eu swyddfa agosaf un diwrnod yr wythnos. - Tueddiadau lefel genedlaethol tuag at gerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) a phob car llog a bws i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2028 a 2035 yn eu trefn.
Teithio busnes	- Gostyngiad o 50% i filltiredde teithio busnes. - O leiaf 75% o filltiredde ceir preifat sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i geir llog allyriadau isel iawn. - Tueddiadau lefel genedlaethol tuag at ULEVs.	- Gostyngiad o 25% i filltiredde teithio busnes. - O leiaf 50% o filltiredde ceir preifat sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i geir llog allyriadau isel iawn. - Tueddiadau lefel genedlaethol tuag at ULEVs.
Fflyd gorfforaethol	O leiaf 75% o ddefnydd tanwydd ffosil (gan gynnwys 100% o fflyd Cadw) yn trosglwyddo i gerbydau trydan batri. Hanner y fflyd cerbydau llwyth trwm ac arbenigol yn trosglwyddo i gerbydau trydan batri, gan dybio datblygiad marchnad wedi'i gyflymu a chyflwyniad seilwaith gwefru.	O leiaf 50% o ddefnydd tanwydd ffosil (gan gynnwys 100% o fflyd Cadw) yn trosglwyddo i gerbydau trydan batri. Y cerbydau motor tanio mewnol sy'n weddill yn gerbydau llwyth trwm neu arbenigol nad oes cerbyd trydan batri presennol yn bodoli ar eu cyfer.

Atodiad C: Gwybodaeth am weithio clyfar

GWYBODAETH:

Mae effaith allyriadau cynnydd i deleweithio yn aml-ffased a bydd angen dull cydgysylltiedig o weithio'n glyfar i sicrhau arbedion o ran allyriadau carbon.

Rydym yn cydnabod manteision posibl gweithio gartref, ond yn cydnabod nad yw'n ateb datgarboneiddio 'bwled arian', wrth i allyriadau teithio a chysylltiedig â'r swyddfa gael eu trosglwyddo yn rhannol i'r cartref yn hytrach na chael gwared arnynt yn gyfan gwbl. Ni adroddir yn eang ar allyriadau y gallir eu priodoli i weithio gartref oherwydd prinder data, ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn ein cyfrifiadau allyriadau a'n gwaith llinell sylfaen hyd yma. Fodd bynnag, rydym wedi eu hamcangyfrif gan ddefnyddio meincnodau a thybiaethau o'r diweddariad i'r Canllaw ar gyfer Adrodd Carbon Sero Net yn 2022 ac a ddefnyddiwyd yn ein modelu targed.



Mae'r dadansoddiad yn rhagori ar y nod lefel genedlaethol o 30% ac yn tybio model gweithio hybrid 70:30 yn y senario 'datblygu momentwm' a 50:50 yn y senario 'newid wedi'i gyflymu' erbyn 2030. Mae'r modelu hwn yn amcangyfrif cynnydd i allyriadau carbon net o'u cymharu â 2020, gyda'r newidiadau mwyaf i allyriadau yn deillio o gymudo yn hytrach na defnydd o'n hystad swyddfeydd, oherwydd effeithlonrwydd disgwylidig uchel ein swyddfeydd yn 2030 i raddau helaeth.


Mae cynnydd i weithio o bell yn effeithio ar ein hallyriadau ar draws tri chategori:

- Cyflogeion yn cymudo,
- Defnydd o ynni mewn swyddfeydd,
- Defnydd o ynni yn y cartref wrth weithio gartref.


Byddwn yn mynd ar drywydd gwelliannau i ddata a gwaith dadansoddi pellach i wella cywirdeb, i gynyddu ein dealltwriaeth, ac i hysbysu datblygiad ein mentrau polisi gweithio clyfar ymhellach.

Senario 1: Newid wedi'i gyflymu

Mae'r staff yn treulio 50% o'u hamser yn y swyddfa, rhyw fymryn o gynnydd o'i gymharu â defnydd o swyddfeydd yn ystod y pandemig. Yn y senario hwn, mae mwy o staff yn teithio i'r swyddfa o'i gymharu â 2020. Mae trydan swyddfeydd o ddyfeisiau gweithfan yn cynyddu. Mae allyriadau o ddefnydd ynni gartref yn gostwng wrth i fwy o staff weithio o'r swyddfa, gwelliant i effeithlonrwydd ynni'r cartref cyffredin ac oherwydd cyflwyniad mwy o systemau gwres trydan domestig.

Newidiadau amcangyfrifedig i allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithio clyfar o gymharu â 2020 (gweithio gartref o 50% yn 2030)**Senario 2: Datblygu momentwm**

Mae'r staff yn treulio 30% o'u hamser yn y swyddfa, cynnydd mwy ceidwadol o'i gymharu â meddiannaeth yn ystod y pandemig. Yn y senario hwn, mae cymudo gan staff yn cynyddu rhyw fymryn, yn ogystal â'r ynni a ddefnyddir yn y swyddfa. Mae allyriadau o ddefnydd ynni gartref yn gostwng wrth i fwy o staff weithio o'r swyddfa o'i gymharu â 2020, ac oherwydd cynnydd i effeithlonrwydd ynni'r cartref cyffredin a chyflwyniad mwy o systemau gwres trydan domestig.

Newidiadau amcangyfrifedig i allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithio clyfar o gymharu â 2020 (gweithio gartref o 70% yn 2030)

Gwasanaeth Ynni

Ariennir Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o ddatblygu prosiectau effeithlon o ran ynni ac ynni adnewyddadwy sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus a thargedau ynni cenedlaethol. Darperir Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Phartneriaethau Lleol (y “**Partneriaid Darparu**”). Lluniwyd yr adroddiad hwn (yr “**Adroddiad**”) gan y Partneriaid Darparu ac, er bod y safbwyntiau a fynegir ynddo yn cael eu rhoi yn ddiwyll yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar ddyddiad yr Adroddiad hwn:

- › nid yw'r safbwyntiau hyn o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru, nad yw'n derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw ddatganiad neu farn a fynegir yn yr Adroddiad;
- › bwriedir i'r Adroddiad ddarparu canllawiau cyffredinol yn unig, yn hytrach na chynghor ariannol, cyfreithiol neu dechnegol at ddibenion unrhyw brosiect penodol neu fater arall, ac ni ddylai neb sy'n derbyn yr Adroddiad ddibynnu arno yn hytrach na chael ei gyngor ei hun gan gynghorydd trydydd parti priodol;

- › dylai unrhyw berson sy'n derbyn yr Adroddiad hwn gael ei gyngor ariannol, cyfreithiol, technegol a/neu unrhyw gyngor proffesiynol perthnasol arall felly os bydd angen cyfarwyddyd penodol ar ba gamau (os o gwbl) i'w cymryd, neu i beidio â'u cymryd, o ran unrhyw brosiect, menter, cynnig, cyfranogiad ag unrhyw bartneriaeth neu fater arall y gallai gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad fod yn berthnasol iddo; ac
- › nid yw'r Partneriaid Darparu yn derbyn unrhyw atebolrwydd o ran yr Adroddiad, nac am unrhyw ddatganiad yn yr Adroddiad a/neu unrhyw wall neu hepgoriad yn ymwneud â'r Adroddiad.

